

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Medi 2013


Rhif 436

50c

Cyrraedd y Brig!

Bu cyfnod yr haf yn gyfnod llwyddiannus a chyffrous i nifer o unigolion talentog Dyffryn Ogwen, gyda sawl un yn cyrraedd y brig yn eu cyfryw feysydd!

Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych



Bet Jones, Rhiwlas
Enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen am ei nofel
'Craciau'

Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd



**Elfed Jackson, Nant Ffrancon, Pencampwr Cneifio
Cymru ac enillydd llu o wobrau eraill
ar hyd a lled y Deyrnas Unedig**

• **Bryony Keyse, Tregarth**

Gwobr 1af yn y gystadleuaeth Unawd Piano dros 19 oed

• **Elfed Morgan Morris, Dirprwy Bennaeth Ysgol Llandygái a Catrin Roberts**

Gwobr 1af yn y gystadleuaeth Deuawd Cerdd Dant dros 21 oed.

• **Dilwyn Pritchard, Rachub**

Gwobr 1af am ddarn newyddiadurol ar unrhyw ornest ym myd chwaraeon ar gyfer yr Adran Lenyddiaeth. Cyhoeddir yr erthygl yn y Cyfansoddiadau.

• **Lisa Jên Brown, Gerlan**

Ei drama yn cael y wobr 1af yn y gystadleuaeth "Sgript Slam" yn Theatr y Maes.

• **Alaw Jones, Parc Moch, Bethesda**

Gwobr 1af am datws gardd

• **Margaret Jones, Cae Drain a'i merch Jên Margiad Temple Morris, Tan y Garth.**

Roedd y ddwy yn aelodau o dîm Merched y Wawr Arfon a enillodd brif wobr Celf a Chrefft y Sioe.

Llongyfarchiadau calonnog i bob un ohonynt a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Ceir mwy o fanylion am rai o'r cystadlaethau dan y gwahanol ardaloedd. Os gwyddoch am unrhyw un arall sydd wedi llwyddo yn yr un modd, cofiwch roi gwybod i'r Llais.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
hylaw@btinternet.com



600965

Ieuan Wyn
cylch@tiscali.co.uk



600297

Lowri Roberts
l.roberts11@btinternet.com



600490

Dewi Llewelyn Siôn
dewision@hotmail.co.uk



07901
913901

Fiona Cadwaladr Owen
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk



601592

Siân Esmor Rees
sian_esmor@btinternet.com



600427

Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com



600853

Dewi A Morgan
dewimorgan@live.co.uk



602440

Trystan Pritchard
trystanrp1@gmail.com



07402
373444

Walter W Williams
waltermenai@yahoo.co.uk



601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT  602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA  600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH  601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ  600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN  600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Fiona Cadwaladr Owen.

Golygyddion mis Hydref fydd Lowri Roberts, 8 Pen-y-ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY. (01248 600490) l.roberts11@btinternet.com a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN (01248 601167) waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 2 Hydref os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 17 Hydref, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Medi

21 Bore Coffi Eglwys St. Anne a St. Mair.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00

23 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00

24 Ymgyrch Casglu Sbwriel Balchder Bro D. Ogwen. Cyfarfod ym Maes Parcio Plas Ffrancon am 10.00 Croeso i bawb ymuno.

24 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00

26 Merched y Wawr, Bethesda. Hogia'r Bonc.
Cefnfaes am 7.00

27 Noson Goffi Nyrsys MacMillan.
Festri Bethlehem Talybont am 6.30.

28 Bore Coffi Nyrsys McMillan.
Gwesty'r Douglas, Bethesda 10.00 - 12.00

28 Ffair Hydref. Ysgol Llanllechid.
11.00 – 3.00

Mis Hydref

03 Sefydliad y Merched Carneddi.
David Roger Jones. Cefnfaes am 7.00

04,05,06 Gŵyl Afon Ogwen

05 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00

06 Côt y Dyffryn. Ail ddechrau Ymarfer.
Festri Jerusalem am 6.15.

07 Merched y Wawr Tregarth. Cadi Iolen.
Festri Shiloh am 7.00

12 Marchnad Ogwen.
Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

14 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Festri Capel Jerusalem am 7.00

17 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

19 Bore Coffi Plaid Cymru.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00

29 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00

31 Merched y Wawr Bethesda.
“Bywyd Gwyllt Eryri”. Cefnfaes am 7.00

Mis Tachwedd

04 Merched y Wawr Tregarth.
Rhian Sinnot. Festri Shiloh am 7.00

09 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda.
10.00 – 2.00

15 a 16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain

£27 Ewrop

£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

 01248 600184

Rhoddion i'r Llais

£5.00 Marilyn Jones, 1, Glan Ffrydlas,
Bethesda

£5.00 Rhys ac Angharad Parry-Owen,
Waun Pentir

£24.00 Di-enw, Llandygái

£6.00 Pauline a Raymond Edwards,
Llandygái

£5.00 Y Teulu Owen, Penybryn,
Bethesda

£10.00 Er cof am ben-blwydd Raymond
Williams (16 Medi), gynt o Rhes
Douglas, Bethesda, oddiwrth
Barbara

£20.00 John a Gwen Davies, Tanysgafell
Isaf, ar achlysur penblwydd
arbennig John

£4.50 Di-enw, Bethesda

£10.00 Blod a Liam Twigge,
14 Maes Coetmor, Bethesda

£10.00 Di-enw, Stryd Fawr, Bethesda

£10.00 Er cof am John William Jones,
4 Braichmelyn.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Awst

£30.00 (14) Evelyn Lupson,
136 Kilmore Drive, Pensby, Wirral

£20.00 (58) Janet Jones, 1, Erw Las,
Bethesda

£10.00 (90) Carys Williams, 12, Tal y Cae,
Tregarth

£5.00 (114) Gwen Aaron, Carreg y Gath,
Rhiwlas

Gwobrau Medi

£30.00 (122) Elizabeth Evans,
12 Rhos y Coed, Bethesda

£20.00 (96) Gwynfryn Davies, Glan
Traeth, Ffordd y Gogledd,
Caernarfon

£10.00 (42) Glenys Clark, Ffynnon Wen,
Tregarth

£5.00 (169) Rita Lewis, 2, Pantglas,
Bethesda

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd  601415

Neville Hughes  600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN  07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669

CAMARWAIN CYNGOR GWYNEDD
A THRIGOLION BETHESDA

Fel rhan o'r cais cynllunio ar ran R.C.H. Douglas Pennant i godi stad o 69 o dai yng Nghoetmor, mae cwmni Carter Jonas wedi cyflwyno gwybodaeth i Wasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd sy'n gwbl anghywir. Mae Pwyllgor Diogelu Coetmor wedi anfon y llythyr canlynol, dyddiedig Awst 27ain, at Mr Glyn Llewelyn Gruffudd, Uwch Swyddog Cynllunio gyda Chyngor Gwynedd.

Annwyl Mr Gruffudd,
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)
Par: Cais Cynllunio C13/0412/13/AM – Cais cynllunio amlinellol i godi stad o 69 o dai ar dir ger Maes Coetmor, Bethesda

Mewn llythyr dyddiedig 4ydd Awst 2013, fe ysgrifennais atoch ar ran Pwyllgor Diogelu Coetmor i nodi fod Carter Jonas yn y cais cynllunio ar gyfer y datblygiad uchod yn adrodd fel a ganlyn:-

Datganiad - Adran Tai Fforddiadwy, dyddiedig Ebrill 2013.

Paragraff 1.2.2, – *A local housing needs survey has been undertaken by the Dyffryn Nantlle Land Trust Group (with assistance by Gwynedd Council and the Gwynedd Rural Housing Enabler).*

Yr ydym bellach wedi cael cadarnhad na dderbyniodd Carter Jonas unrhyw arolwg ynghylch tai fforddiadwy ym Methesda, na'r gofyn am dai fforddiadwy ym Methesda, gan Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle na Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd. Yn ychwanegol, ni wnaethpwyd arolwg penodol am yr angen am dai fforddiadwy ym Methesda gan Gyngor Gwynedd.

Ystyriwn fod y datganiad yn y paragraff a nodwyd uchod yn gwbl gamarweiniol a bod cyflwyno gwybodaeth anghywir o'r fath fel rhan o gais cynllunio ac iddo oblygiadau difrifol. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth fod hyn yn annilysu'r cais a gofynnwn i chwi felly fel Gwasanaeth Cynllunio wrthod ystyried cais cynllunio C13/0412/13/AM.

Yn gywir
Dr John Ll. W. Williams
(Ar ran Pwyllgor Diogelu Coetmor)

Gall gwybodaeth gamarweiniol ddylanwadu ar swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio ac ar aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i gymryd safbwynt ddi-sail a dod i farn a phenderfyniad anghywir. Ni chredwn y dylid goddef cyflwyno gwybodaeth anghywir yn y modd hwn, a'n barn yw ei bod yn ddyletswydd ar y Cyngor i hysbysu'r sawl sy'n gyfrifol am ei chyflwyno na fydd y cais cynllunio yn cael ei ystyried. Disgwyliwn y bydd Mr Gruffudd yn ymateb yn fuan i gynnwys y llythyr uchod, ac y bydd y cais cynllunio dan sylw yn cael ei drin fel cais annilys.

Rydym hefyd wedi anfon at Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards, i fynegi pryder ynghylch y cais cynllunio hwn yn benodol ac am y broblem gyffredinol o orddatblygu, sef codi mwy o dai nag sydd eu hangen yn lleol. Yn ôl y drefn gynllunio bresennol, mae datblygu yn cael ei seilio ar ragamcanion twf poblogaeth gan grŵp ymchwil o'r tu allan i Gymru. Nid yw'r drefn gynllunio yn seiliedig ar arolygon rheolaidd o anghenion tai yn lleol, ac mae hyn yn ddiffyg difrifol sydd eisiau ei gywiro'n ddiymdroi.

Mae tystiolaeth yn dangos mai canlyniad gorddatblygu yn Nyffryn Ogwen ac ardaloedd eraill fydd newid cymeriad cymunedau lleol yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol. Yn hytrach na bod yn fygythiad difrifol i'r bywyd Cymraeg, dylai'r drefn gynllunio warchod a chryfhau cymunedau Cymraeg y sir. Byddai gorddatblygu yn ergyd farwol i'r Wunedd Gymraeg.

Os nad ydych chi wedi gwneud hyn yma, cofiwch ddatgan eich gwrthwynebiad i'r cais cynllunio (gan nodi rhif y cais cynllunio: C13/0412/13/AM) trwy anfon llythyr at Mr Glyn Llewelyn Gruffudd, Uwch Swyddog Cynllunio, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA neu anfon neges e-bost ato i: cynllunio@gwynedd.gov.uk

Pwyllgor Diogelu Coetmor

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

*Nid oedd i'w gael yng ngwlad y Sais
Ail Dafydd Lloyd a'i felys lais*

Fel yna y canodd y prifardd Tilsli i'r tenor enwog David Lloyd. Ac meddai Rhys Meirion amdano "Cyffyrddodd yng nghalonau ei gynulleidfa, am ei fod yn canu o'r galon, a'r galon honno, ar brydiau, bron a thorri."

Profodd "wae a gwynfyd, nef ac uffern bob yn ail", a'm gobaith yw y bydd y cofiant iddo, yn adrodd hanes y dyn, yn ogystal â hanes y tenor.

Os oes ganddoch chi unrhyw wybodaeth o gwbl am David Lloyd, neu os wyddoch chi am rywun sydd wedi casglu gwybodaeth amdano - byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Gallwch gysylltu â mi drwy lythyr neu e-bost.

Hywel Gwynfryn, 53 Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd CF14 1NJ neu hywel.gwynfryn@bbc.co.uk



O 'Tŷ Ni'

Dyma stori wir bob gair! Wedi dod adref o wyliau ar ynys Cyprus, roeddwn yn dadbacio'r cêś yn y llofft. Beth syrthiodd allan o esgid y gŵr, ond clamp o chwilen - a honno'n dra byw ac iach! Rhyw frowngoch oedd ei lliw ac yn mesur tua 3 a hanner centimetr (modfedd a hanner)

Wrth gwrs, roedd yr wyron i gyd yn awyddus dros ben i weld yr anghenfil a oedd wedi trafaelio mor bell yn esgid Taid. Rhoddwyd y chwilen mewn pot jam - a chau'r caead yn siŵr i chi!

Dyma ddechrau cysidro hynt a helynt y fath bry. Roedd wedi bod yn y cêś am o leiaf 12 awr ac wedi bod yng nghrombil yr awyren ar dymheredd isel iawn iawn am dros 4 awr. Nid oedd wedi cael hyd yn oed ddiferyn o ddŵr heb sôn am fwyd. Gan na wyddwn i ddim am ddiet chwilog, ni chafodd fwyd yn ei chartref newydd o gwbl.



I dorri stori hir yn fyr, bu'n byw yn y pot jam am dros wythnos heb ddim cynhalieth o gwbl. Roedd fy nhad - oedd yn naturiaethwr brwd - yn awyddus iawn i weld y chwilen ac felly dyna ychydig ddyddiau eto yn y pot jam cyn cael taith arall! Erbyn hyn, roedd yn rhaid meddwl beth i'w wneud nesaf, a'r penderfyniad oedd rhyddhau'r creadur ar lan Afon Colwyn ym Meddgelert. Dyn a ŵyr beth fu ei hanes.

Dywedir mai chwilog yw'r ychydig greaduriaid fuasai'n gallu goroesi ymbelydredd niwclear. Synnwn i ddim!

Mae croeso i blant anfon cyfraniad i 'Tŷ Chi' wrth gwrs neu beth am lun diddorol? Cysylltwch â jan@erwlas.freeseve.co.uk, neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd. LL57 3NN gan gofio rhoi enw a chyfeiriad "Tŷ Chi" neu gallwch gysylltu â Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

O 'Tŷ Chi'

Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi ar hysbyseb bagiau Howget sydd wedi bod yn y Llais dros y misoedd diwethaf. Mae Lynda yn cynnig gwobr i'r person aeth a'r bag bellaf yr haf yma. Dyma limrig gan y cyfaill o Riwlas unwaith eto.

Bagia' Howget
Dusseldorf, Dubrovnik, Dubái,
Llydaw, Llanbrynmair, Llandygái
Isle-of-Man ac Oman
Ma' rhein ym mhob man
Yn Tokyo, Timbuktu a Gwlad Thai.

Gair o eglurhad am y limrig nesaf. Mae Arwyn Oliver yn creu teithiau cerdded o gwmpas y fro i'r Llais fel y gwyddoch. Mae Now a finnau yn treialu pob taith cyn eu cyhoeddi. Mae gan Now 'ap' er ei ffôn sy'n mapio'r daith gyda GPS ac yn dangos y pellter a'r amser a gymerwyd.

Oliver a Gulliver
Yn G'narfon cewch fynd "am dro hefo co"
Yn Nyffryn Ogwen gwelwyd dau rownd y fro
Arwyn a'i fap
A Now gyda'i Ap
Yn cael llefydd i'r howgets fynd am dro.

Ac un arall nad oes eisiau gair o eglurhad

Y Weiren Wib
Y Weiren Wib gyrhaeddodd y Dyffryn
A 'dach chi'n mynd yn uffernol o sydyn
I'r gwaelod o'r top
A hynny'n ddi-stop
Cyn sylwi bod chi hydnoed 'di cychwyn.

Llawer o ddiolch am gyfraniad hwyliog unwaith eto gan y limrigwr medrus yma.

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ **601902**

Llongyfarchiadau



Yr hogia’n rhedeg Marathon Fawr Môn

Llongyfarchiadau i ddau o hogia’ Pesda am redeg ‘Cylch Tanllyd Môn’ a chodi arian i Hosbis Dewi Sant ar yr un pryd. Dros y tri diwrnod roedd Carwyn Williams (ar y chwith) o Pen y Brenin wedi cwblhau’r cwrs o 135 milltir, ond bu rhaid i Ryan Roberts, o Abercaseg, roi’r gorau iddi ar ôl 60 milltir. Llwyddodd yr hogia’ i gasglu dros £1,150 – arbennig yn wir. Da iawn, hogia!

Diolch

Dymuna Mrs Llilian Evans, Siân, Derwyn ac Elin Lois, a theulu’r diweddar Mr David Evans, Tan Dderwen, Coed-y-Parc, a fu farw 30 Mai, 2013, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolch am bob ymweliad, galwad ffôn a cherdyn, ac am y rhoddion er cof. Diolch i’r Parch/Ddr. Hugh John Hughes am arwain y gwasanaeth, a hefyd i Mr Stephen Jones am ei drefniadau a’i gymorth.

Ysbyty
Yn ystod yr haf bu sawl un o’r cylch yn yr ysbyty. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn ac yn gwella. Cofion atoch i gyd, ac at y rhai sy’n sâl gartref.

Mr Hedd Rhys, Garneddwen;
Mr Emyr Williams, Ffordd Ffrydlas;
Mr Tudor Roberts, Abercaseg;
Mrs Eleanor Jones, Bryn Caseg;
Mrs Nicola Williams, Gwêl y Nant;
Mr Vernon Thomas, Rhes Gordon;
Mr Thomas R. Jones, Rhos y Coed;
Mrs Heddwen Jones, Rhos y Coed

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Mr Alaw Jones, Parc Moch, ar ei lwyddiant yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Enillodd Alaw y wobwr gyntaf am dyfu 5 o datws perffaith un lliw yn y Sioe.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Alan a Christine Hughes ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab i Ann a Michael yn Rachub, sef Caiden brawd i Callum.

Cystadleuaeth Crefftiau Howget
Derbyniwyd lluniau o fagiâu Crefftiau Howget, sydd ag enwau Dyffryn Ogwen arnynt, o wledydd megis Ffrainc, Yr Almaen, Llydaw, Ynys Sicili a Gran Canaria, ond yr enillydd yw llun o'r Gaiman, Patagonia.



Llongyfarchiadau i Eleanor Jones, Gerlan a oedd wedi anfon bag at Rhisiart Arwel draw ym Mhatagonia.

Bore Coffi Ambiwylans Awyr
Hoffai Caffi Coed y Brenin ddiolch am yr holl gefnogaeth a gafwyd ddydd Gwener 6 Medi yn y Bore Coffi tuag at yr Ambiwylans Awyr.

Diolch o galon i’r canlynol am eu cyfraniadau at y raffl: Tafarn y Llangollen, Weiren Wib (Zip Wire), Garej Ffrydlas, Rita a Gareth Lewis, Londis, Tesco Express, Spar, Serena, Ann Jeanette, Gwesty’r Victoria, Bradite, Chwarel y Penrhyn, Gwenda a Gilbert Bowen, Joe ac Eira Hughes, Trends, Red Line Karting, Tŷ Golchi, Arthur Beechey, Gelli Gyffwrdd, Gwasanaeth Bwyd Harlech, Toning Studio, Glanhawyr Ffenestri E.O.G., Nicol Hughes, Gwenda Coakes ac Ever So Tasty

Diolch hefyd i Jonsi am ei bresenoldeb gydol y dydd.

Cyhoeddir y cyfanswm a gasglwyd yn y rhifyn nesa. Diolch yn fawr i bawb.

Sialens Tyfu Garlleg

Yn dilyn misoedd o drafod a chynllunio, roedd diwrnod y Sialens Tyfu Garlleg wedi cyrraedd, a’r cystadleuwyr yn cyrraedd tafarn y Douglas Arms gyda’u cynigion gwerthfawr o wahanol fathau o arlleg yn barod ar gyfer eu beirniadu. Yna am un o’r gloch cyrhaeddodd y tri beirniad, sef Adrian Griffin, Chris Bailey-Hughes ac Andrew Carson. Caewyd hwy yn yr ystafell ddirgel gyda digon o ddŵr a choffi i feirniadu’r 54 o gynigion, sef tri math gan bob un o’r 18 a oedd yn cystadlu. Bellach ‘roedd y tŷ cyfan yn drewi o arogl garlleg! Wedi awr o flasau cawsant doriad haeddiannol cyn dychwelyd i’r arfaeth.

Erbyn tri o’r gloch roedd enillydd wedi’i ddewis, ond arhoswyd nes bod y cystadleuwyr i gyd wedi dychwelyd cyn cyhoeddi enw’r unigolyn buddugol . Yn y cyfamser, cafwyd adloniant byw gyda Dave Stephen, Gareth Moriarty (ar gitârs) a Richard (Ilais). Cafwyd enghraifft hefyd gan Richard o gerddoriaeth gydag offeryn taro o’r enw cajon. Nid amharwyd dim ar yr adloniant gan y gwynt a’r glaw, a chafwyd prynhawn difyr iawn. Am bump o’r gloch daeth y dyfarniad gan Adrian, y Cadeirydd: Malcolm Creasey yn 3ydd, Gareth Moriarty yn ail a Gwilym Owen yn bencampwr!

Hoffem ddiolch yn fawr i’r holl gystadleuwyr am blannu’r clofau ac yna eu bwydo, eu dyfrio a’u meithrin yn ofalus cyn eu dychwelyd i olau dydd i gael eu beirniadu! Diolch hefyd i Gwmni Greenough Roofing am eu haelioni yn prynu’r hadau garlleg a’r tlws o lechen hardd. Cyflwynwyd y tlws i Gwilym gan Mrs Myfanwy Owen. Diolch hefyd i Chris Bailey-Hughes am goginio’r cawl garlleg blasus (a oedd yn cynnwys 300 o glofau, wedi eu plicio i gyd gan Chris ac Adrian!). Gwerthwyd y cawl, gyda’r elw, ynghyd â thâl mynediad y cystadlu, i’w roi i elusen o ddewis yr enillydd. Gwnaethpwyd elw o £170, a chwyddwyd hynny i £200 yn garedig iawn gan y gwestywyr, sef y Douglas Arms, a dewisodd Gwilym Owen roi’r rhodd tuag at yr Ambiwylans Awyr.

Diolch yn fawr i bawb, ac edrychwn ymlaen at eich gweld y flwyddyn nesaf!

Yn y llun: Gwilym Owen yn cyflwyno siec am £200 i Eifion Jones (Jonsi) ar ran Ambiwylans Awyr Cymru yn y bore coffi a gynhaliwyd yng Nghaffi Coed y Brenin ar 6 Medi. Yn y llun hefyd mae Christine Edwards, Gwesty'r Douglas, trefnydd y gystadleuaeth tyfu garlleg.

Diolch

Dymuna Nicola, Andrew a Shannon, 5, Gwêl y Nant, ddiolch yn fawr iawn i’r teulu a chyfeillion oll am y cardiau, yr anrhegion a’r dymuniadau da a dderbyniwyd yn dilyn salwch Nicola. Diolch yn arbennig i’r meddyg Dr Gareth Jones a staff Meddygfa’r Hen Orsaf am bob cymorth.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ystod yr haf: Mr a Mrs Ifor Williams, Abercaseg, a’r teulu, a Mrs Dilys Jones, Amwythig, yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Mr Raymond Hughes, yr Almaen, gynt o Ben-y-graig, yn 65 oed.

Mr a Mrs Derek Griffith, Abercaseg, a’r teulu, a Mr a Mrs James Rowlands, Abercaseg, a’r teulu. Collodd Norma ac Edwina eu nai, Mr Garri Williams, Llandudno, yn 50 oed.

Mr Douglas Hughes, Abercaseg, a’r teulu, wedi colli chwaer-yng-nghyfraith a modryb yn Llanrug, sef y ddiweddar Mrs Mair Roberts.

Mrs Lilly Butler

Ar Awst 8fed yng Nghartref Nyrsio Penisarwaen bu farw Mrs Lilly Butler, gynt o Glanogwen, yn 86 oed. Mam garedig i Bryn, Gina a’r diweddar Glyn; Nain hoffus Cian, Glyn, Adam a Lydia a chwaer annwyl Kath, Adwy’r Nant, a’r diweddar Benny, Tudor, John a Gina. Gwraig dawel a bonheddig oedd Lil ac un barod am sgwrs yn y Stryd Fawr neu dros baned. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher, Awst 14, gyda’r gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Rhys Williams. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Mr Kevin Sullens

Yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 31 bu farw Mr Kevin Sullens, 3, Stryd

Cefnfaes, yn 59 oed. Cymar annwyl Sheila a thad Anna ac Alwyn. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogsgfa Bangor ddydd Mawrth, Medi 10. Cydymdeimlwn â chwi i gyd yn eich profedigaeth.

Profedigaeth

Ar 10 Awst bu farw Richard Williams yn 45 mlwydd oed, mab annwyl Penny a’r diweddar Ken, Bryn Myfyr, a brawd hoff Jacqui a thad arbennig Alys a Leia, Llanrug. Cafwyd gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor ddydd Sadwrn 17 Awst dan arweiniad y Parch. Dafydd Coetmor Williams, ei gefnder. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich profedigaeth.

Elizabeth Parkes

Yn dawel ar 20 Mehefin yn Wellington, Awstralia, bu farw Elizabeth Parkes ar ôl brwydro cystudd blin. Roedd Elizabeth yn ferch i’r diweddar Mr William a Mrs Dilys Parry, Bwtsiar, ac yn chwaer annwyl i Gareth a Mair. Ymfudodd Elizabeth i Sydney ym 1963 a bu’n nyrsio mewn ysbytai yn Sydney ac yn y ‘Bush’. Ym 1968 priododd â Mervyn Parkes, ffarmwr o ardal Wellington a ganwyd pedwar o blant iddynt – Ian, Andrew, Gareth a Kathryn. Roedd ganddynt naw o wyrion ac wyresau ac roedd Elizabeth yn hynod falch ohonynt. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch yn Wellington cyn mynd â’i gweddillion i Amlogsgfa Dubbo. Roedd ei chwaer, Mair a’i gŵr Gareth yn Awstralia ar gyfer yr achlysur trist hwn a chawsant ffarwelio â’i chwaer ar ran y teulu o Fethesda a’r cylch. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Ettie Evans a’r teulu, Glanffrydlas yn eu profedigaeth o golli nai, y diweddar Richard Williams.

Ddiwedd Awst cafodd Lena Henry a Jack, Erw Las, a Gwen a Myrddyn, gynt o Ffordd Carneddi, brofedigaeth pan fu farw brawd Lena a Gwen sef Gwilym yn Llandrillo-yn-Rhos. Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr â chi yn eich colled.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Thomas Gashe ar ennill gradd yn ddiweddar. Pob dymuniad da i’r dyfodol oddi wrth Nain a Taid, Glanogwen.

Derbyniodd Nia Williams, Erw Las, radd B.A. gan Brifysgol Bangor ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr iddi . Dymuna Nia ddiolch i bawb am eu cyfarchion a’u dymuniadau gorau o ganlyniad i’w llwyddiant.

Babi Newydd


Llongyfarchiadau i Laura a Michael, Rhes Tabernacl, ar enedigaeth mab, Dafydd, brawd bach i Siôn. Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, sef Gareth a Lynne, ac hefyd i Taid a Nain Rachub, heb anghofio’r bedair hen-nain: Mrs Muriel Williams, Garneddwen; Mrs Mair Taylor, Maes y Garnedd; Mrs Mair Sullivan, Glanogwen a Mrs Jean Hughes, Talybont.

Diolch

Dymuna Blod a Liam Twigge, 14 Maes Coetmor, ddiolch o galon i aelodau’r teulu a ffrindiau am eu cyfeillgarwch a’u cefnogaeth ar yr achlysur trist o golli priod a thad, sef William Derek Twigge.

Diolch i bawb am eu rhoddion hael; mae’r cyfanswm wedi ei rannu rhwng elusennau Macmillan a Marie Curie. Diolch yn fawr hefyd i Gareth Williams, yr ymgymerwr

Gwobrwyo



Ar 28 Mehefin cafodd Vernon James Owen, 30 Abercaseg, ei wobrwyo mewn cyfarfod arbennig yng Nghaer. Y rheswm oedd iddo fod wedi rhoi 75 peint o’i waed at helpu eraill ers 1988. Gwyh iawn, Vernon!

Diolch

Dymuna Gareth a Rita Lewis ddiolch i’w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd. Bydd y busnes yn parhau mewn dwylo newydd, a hyderwn y rhoddir yr un gefnogaeth i’n holynwyr, sef Tom a Jess.

Graddio



Llongyfarchiadau cynnes i Ceri Edwards ar ennill gradd nyrsio. Da iawn ti, Ceri, am weithio mor galed a gofalu am Eli a Seren ar yr un pryd. Dymuniadau gorau oddi wrth Nain a Taid, Glanogwen, a Mam a Tomos

Diolch

Dymuna Gwen a John Davies, Tanysgafell Isaf, ddiolch i’r teulu a ffrindiau am eu rhoddion ar achlysur John yn 80 oed. Anfonwyd siec am £500 at Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i ddathlu mewn parti i’w gofio yn y Clwb Criced. Diolch yn fawr.

Pen-blwydd Arbennig

Bu Owie Williams, Maes y Garnedd, yn dathlu ei ben-blwydd

Ffarwelio



Mae Siop William Lewis ar y Stryd Fawr wedi bod yno er cyn cof i bawb bellach, felly mae’n drist iawn gorfod ffarwelio â’r perchnogion Gareth a Rita Lewis. Agorwyd y siop, neu’r un isaf o’r ddwy, gan daid Gareth sef William Hugh Lewis dros ganrif yn ôl. Yn wir mae derbyneb dyddiedig Rhagfyr 1909 wedi ei fframio ar y wal yno. Ymgartrefodd yn y tŷ sy’n eich wynebu ar gylchfan Allt Penybryn ac yno ganwyd dau fab, Griff ac Arfon, a dwy ferch, Mable a Gaynor. Rheolwyd y busnes wedyn gan Griff, sef tad Gareth ac Arfon, ac mae llawer iawn ohonoch yn eu cofio nhw.

Ar ôl priodi bu Griff a’i briod yn byw yn Rhes Ogwen ble magwyd Wendy a Gareth. Yn 1950 prynwyd y siop drws nesaf, a fu yn *Cefnfaes Stores, grocer and confectioner* a hefyd yn siop gig, ble magwyd Goronwy Roberts yr Aelod Seneddol. Torrwyd y twll trwodd gan Jack Griffith, Tŷ’r Ysgol, Glanogwen.

Yno yr aeth Gareth yn 1965, ar ôl gadael yr ysgol yn bymtheg oed. Yno hefyd yn ei sgil yr aeth ei wraig Rita. Wyddech chi mai dim ond dau ddydd Sadwrn mae Gareth a Rita wedi eu cael fel diwrnodau rhydd gyda’i gilydd, sef diwrnod eu priodas a diwrnod priodas eu mab Dylan gyda’i wraig Melanie. Anhygoel!

Bu Gareth yn gwerthu paraffin o amgylch yr ardal am flynyddoedd pan oedd gan lawer aelwyd stôf fach baraffin i dwymo neu i ferwi ambell i beth mewn sosban. Ydach chi’n cofio’r oglau! Mae Gareth yn ei gofio yn 2/6 neu hanner coron y galwyn, rŵan buasai’n £7. Pan newidiodd pethau, byddai’n danfon nwy o amgylch yr ardal.

Oherwydd eu hadnabyddiaeth o bobl byddai rhai’n mynd yno heb feddwl am fesur dim yn gyntaf, dim ond cyrraedd y siop a dweud “ond ti’n gwbod pa seis di’n ffenast i”. Cafwyd hwyl hefyd pan ofynnwyd pa faint sedd tŷ bach oedd arnynt eisiau, mawr, canol ynteu bach, a phobl yn rhyw drio troi’n slei i edrych tu ôl iddynt eu hunain.

Ie, mawr fu’r hwyl â’r gwasanaeth yn arbennig. Bydd yn rhyfedd ar ddiwrnod braf peidio â gweld Rita yn eistedd y tu allan bob amser yn barod ei sgwrs. Y newyddion da, sydd yn dda iawn i Stryd Fawr Bethesda, yw na fydd y siop yn cau. Ei pherchnogion newydd ydy Tom a Jess ac rydym yn siwr bydd y croeso yr un mor gynnes.

yn 80 ar Fedi 14. Dymuniadau gorau oddi wrth Tom a Karen a’r teulu; Wil, Nia a’r teulu a Richard, Joanne a’r teulu.



Priodas

Llongyfarchiadau i Llinos, merch Alan a Carys Parry, 8 Glanogwen, ac Alan Jukes, ar eu priodas yn ddiweddar yng ngwesty Cardon Park. Mae Llinos ac Alan, a’u plant Efa a Gethin, wedi ymgartrefu yn Llannerch-y-Medd ers sawl blwyddyn erbyn hyn.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Elliw Mali Owen, 11 oed, o 9 Ffordd Pant, ar basio arholiad piano Gradd 4 efo Teilyngdod (Merit). Dim ond ers dwy flynedd a hanner mae Elliw yn cael gwersi, gyda Mrs Rhian Roberts, Llen Ogwen. Da iawn ti, Elliw; cariad mawr iawn oddi wrth y teulu i gyd.

Graddio

Llongyfarchiadau i Meinir Haf Owen, Ffordd Pen y Bryn, ar ennill gradd BA Anrhydedd ail ddosbarth mewn Astudiaethau Busnes ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl. Cariad mawr oddi wrth Mam, Mark, Steffan, Bob a’r teulu oll.

Profedigaeth

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mr Griffith Oliver Jones, neu ‘Gerry’, gynt o 11, Abercaseg, a fu farw ar ddechrau mis Awst.

(Parhad o dudalen 5)

Bu Gerry’n byw am naw mlynedd yn Abercaseg cyn symud i Dregarth ddwy flynedd yn ôl. Cymwynaswr oedd Gerry, yn mwynhau sgwrsio gyda hwn a’r llall, ac yn berson clên a hawddgar ac yn llawn hiwmor. Cydymdeimlwn â’r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid ffeind.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis:
Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.

Noson Caws a Gwin
Cynhaliwyd Noson Caws a Gwin yng Ngwesty’r Douglas, Nos Wener, 23 Awst. Daeth cynulliad da iawn i gefnogi’r noson ac roedd yr elw tuag at Gronfa’r Organ.
Cynhaliwyd stondin boteli hefyd gyda’r elw tuag at y Clwb Garddio sy'n gofalu am Fynwent Coetmor.
Diolch o galon i bawb a fu’n trefnu’r noson ac yn gofalu am yr amrywiol stondinau.

Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd ac i Gwyn a Christine am eu croeso arferol.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

Oedfaon y Sul am 10.00 ac am 5.00

Medi 22
Y Parchedig Cledwyn Williams.
Medi 29
Sul dan ofal Cymorth Cristnogol
Hydref 6
Y Parchedig Geraint Hughes.
Hydref 13
Mair Penri Jones.

Croeso Cynnes i Bawb

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parch. Geraint Hughes

Dechreuodd Gorffennaf yn ddigon cymysglyd o ran tywydd, ond yn fuan daeth tro ar fyd a’r haf yn cyrraedd o’r diwedd.

‘Chwa Gorffennaf ddaw i’m tŷ
Yn y bore melys’,
chwedl Eifion Wyn.

Fel arfer, cofiwn am ein holl aelodau a’n cyfeillion sydd yn wael gan anfon ein cofion cywiraf atynt. Dyfynnaf eiriau’r Parchedig John Pritchard mewn rhifyn o’r Goleuad yn pwysleisio gwaith yr Eglwys :-
‘Cysuro’r galarus, ymweld â’r unig, cynorthwyo’r gwan, amddiffyn y bregus, tystio i’r colledig, bwydo’r newynog; argyhoeddi’r di-gred; cymodi gelynion; mae’r cyfan yn rhan o’r dystiolaeth Gristnogol o’r byd anghenus tlawd.’

Hyderwn y cawn nerth i gyflawni rhai o’r pethau hyn ynghyd â’u cynnwys yn ein gweddïau.

Ar y 4ydd, bu’r Fns Elena Owen yn yr Ysbyty yn cael triniaeth i’w llygad, ac yn falch o glywed fod y driniaeth yn llwyddiannus.

Y Clwb Celf
Cafwyd ymweliad gan y Br Eifion Jones (Jonsi) i’r ‘Clwb’ fore Mercher, y 10fed. Cyflwynwyd siec am £200 iddo, er budd ‘Ambiwlans Awyr Cymru.’

Bu ‘Côr y Dyffryn’ yn ddygn iawn yn ymarfer bob nos Sul wedi’r oedfa dan hyfforddiant trylwyr Menai. Fe dalodd ar ei ganfed mewn Cymanfa Ganu lwyddiannus ym Mhenysarn, Môn ar 14 Gorffennaf.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i’r Br Gareth a’r Fns Dilys Jones, Pencilan, ar ddathlu pen-blwydd Priodas Aur yn ddiweddar.

Cydymdeimlad
Daeth newydd trist ddiwedd Awst fod y Parchedig John Owen wedi colli ei frawd yng nghyfraith. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â’r teulu i gyd.

Adnod y mis. *‘Nid er fy mwyn i, ond er eich mwyn chwi y daeth y llais hwn’.* (Ioan 12.30)

Ymddeoliad Gweinidog
Bydd gweinidog Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen, Y Parchedig Geraint Hughes, yn ymddeol ddiwedd mis Hydref eleni, yn dilyn 16 mlynedd ac 8 mis o wasanaeth i’w eglwysi ac i’r ardal yn gyffredinol. (Cychwynnodd yn Nyffryn Ogwen ddechrau Mawrth 1997).
I gydnabod y gwasanaeth hwnnw, mae Pwyllgor yr Ofalaeth wedi penderfynu agor TYSTEB iddo gan wahodd pawb i gyfrannu, os ydych yn dymuno gwneud hynny. Gallwch gyfrannu drwy law swyddogion capeli Jerusalem (Bethesda), Carmel (Llanllechid), neu Bethlehem (Talybont), neu yn uniongyrchol i drysorydd yr Ofalaeth, Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda, LL57 3PA.
BYDD Y DYSTEB YN CAU AR DDYDD SUL, 20 HYDREF.
Cyflwynir y dysteb i Mr Hughes yn ei oedfa ymadawol a gynhelir yng Nghapel Carmel, Llanllechid ar brynhawn Sul, 27 Hydref am 2 o’r gloch.

CAPEL BETHANIA BETHESDA

Hydref:
06: Mr Thomas Alun Williams
20: Parch. Gwynfor Williams
Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

Neuadd Ogwen

Ddiwedd Awst, trefnwyd penwythnos o ddigwyddiadau ym Methesda i gofnodi'r ffaith fod Neuadd Ogwen yn cau ei drysau - am y tro, o leiaf. Fel y gŵyr nifer ohonoch, mae cwmni Tabernacl wedi llwyddo i sicrhau grantiau gan Gronfa'r Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru a Mantell Gwynedd er mwyn trawsnewid y neuadd. Yn dilyn penwythnos llwyddiannus dros ben, lle gwelwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau - o griw Lliwiau'r Enfys yn diddanu'r plant lleiaf, i gerddoriaeth gan Yr Ods - caewyd y neuadd i'r cyhoedd. Rhywdro tua diwedd Medi bydd yr adeiladwyr yn dechrau ar eu gwaith, ac am y chwe mis nesaf fe fyddan nhw wrthi yn troi'r neuadd yn ganolfan gymunedol addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd drysau'r neuadd yn agor eto yn y gwanwyn, gyda'r union ddyddiad i'w gadarnhau. Wedi i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd y neuadd yn edrych yn dra gwahanol i'r hyn sydd i'w weld yno ar hyn o bryd. Bydd y seddi presennol yn y brif neuadd wedi mynd, gyda seddi symudol newydd yn cymryd eu lle. Fe fydd system sain a goleuo newydd wedi ei gosod, ynghyd ag offer taflunio a fydd yn caniatáu dangos ffilmiau eto. Yn ogystal â system sain a goleuo newydd bydd system wresogi ac awyru, sy'n golygu y bydd modd cadw'r lle yn gynnes a chlyd drwy gydol y flwyddyn. Ac ar ben hyn i gyd, bydd y cyntedd yn cael ei ailwampio yn llwyr, gyda chegin a thoiledau newydd, a gofod cyfforddus i eistedd a chyfarfod. Ac i goroni'r cyfan, bydd llawr ychwanegol yn cael ei osod uwchlaw'r gegin a'r cyntedd, a fydd yn cynnwys ystafell gyfarfod a swyddfa.

Y swyddfa newydd hon fydd cartref rheolwr y neuadd. Wrth i'r Llais fynd i'r wasg doedd y rheolwr ddim wedi ei b/phenodi, ond y gobaith yw y bydd modd iddo fo neu hi ddechrau ar y gwaith yn yr hydref. Bydd y rheolwr yn gyfrifol am drefnu cyfres o weithgareddau yn y neuadd, gan geisio gwneud yn siŵr fod y ganolfan yn cynnig rhywbeth i bawb o drigolion Dyffryn Ogwen. Gobaith Tabernacl yw y bydd y Neuadd Ogwen newydd yn fwrwm o weithgareddau drwy gydol yr wythnos, ac y daw yn ganolbwynt naturiol i'n cymuned.

Dyfrig Jones

Lliw a llun ar y stryd fawr

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda chymunedau ledled y sir i geisio denu buddsoddiad mewn siopau gweigion fel rhan o’r ymdrech ehangach i gefnogi trefi marchnad traddodiadol yr ardal yn y cyfnod heriol hwn.

Mae gwaith ar y geill ar hyn o bryd i wella stryd fawr trefi’r sir drwy osod lluniau lliwgar yn ffenestri siopau sydd wedi cau.

Bwriad y delweddau finyl ydi hyrwyddo atyniadau a’r ardal leol yn ogystal â rhoi manylion cyswllt perchnogion yr adeiladau ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb cymryd y siop drosodd.

Meddai’r Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Gwynedd dros yr economi:

“Mae canol trefi yn hanfodol bwysig i’n heconomi leol. Dyna pam rydan ni’n gweithio efo grwpiau cymunedol i chwilio am ffyrdd newydd o ddenu mwy o bobl i siopa’n lleol.

“Bydd y cynllun blaengar yma yn gwneud trefi Gwynedd yn llawer mwy atyniadol i’r rhai sydd eisoes yn siopa’n lleol yn rheolaidd ac i ymwelwyr hefyd. Y gobaith ydi y bydd yn rhoi hwb i bobl fentro agor busnesau newydd a chyfrannu i’r gymuned leol.”

Mae’r cynllun wedi cymryd ei gam cyntaf ac mae lluniau o chwareli enwog Dyffryn Ogwen ac atyniadau lleol i’w gweld yn ffenestr siop wag ar Stryd Fawr Bethesda. Bu Partneriaeth Ogwen, mudiad adfywio lleol, yn helpu i ddewis y delweddau.

Dywedodd un o aelodau’r bartneriaeth, a’r cynghorydd lleol, Ann Williams: “Dwi’n meddwl ei fod yn wych. Mae’n adeg anodd i fusnesau ond rydym yn gobeithio, drwy fod yn rhagweithiol, gallwn wneud ein strydoedd siopa yn llefydd mwy atyniadol i bobl ymweld â nhw.”

Os ydych yn gwybod am siop addas a allai elwa o’r cynllun, cysylltwch â Hannah Joyce o Gyngor Gwynedd ar hannahjoyce@gwynedd.gov.uk neu **01341 424 504**.



Griff Morris, Ann Williams, Mary Jones a Neville Hughes ger un o’r siopau gwag ym Methesda

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Codi Arian



Mae Beth Speddy yn dymuno diolch i’w theulu, ei ffrindiau ac i gwsmeriaid Copa am ei noddi yn ddiweddar i fynd i lawr y weiren wib yn Chwarel y Penrhyn. Llwyddodd Beth i gasglu £300 tuag at Ymchwil Canser Cymru.

Llwyddiant yn yr Eisteddfod
Llongyfarchiadau mawr i Lisa Jên, Gwernydd, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yr haf hwn. Fe enillodd ei drama gystadleuaeth 'Sgript Slam' ddydd Mercher yr eisteddfod yn Theatr y Maes. Da iawn, chdi, Lisa! Mae Lisa yn hynod o brysur y dyddiau hyn. Fe fu’n perfformio ei drama ei hun yn yr Almeida yn Llundain yn ddiweddar, ac mi fydd yn gweithio efo'r Theatr Genedlaethol, Sherman Cymru, a Living Pictures yng Nghaerdydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd hefyd yn ymddangos mewn drama gan Meic Povey cyn cychwyn gyda Sioe Nadolig Sherman Cymru yng Nghaerdydd. Braf iawn yw gweld merch o'r Gerlan yn cael cymaint o lwyddiant. Pob dymuniad da i ti, Lisa.

Nain a Thaid
Llongyfarchiadau i Sandra a Trefor Williams, Stryd Goronwy, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganed merch fach, Naomi, i'w merch, Donna a'i phartner, Mark, sy’n byw ym Maesgeirchen.

Genedigaeth
Rydym yn llongyfarch Lowri ac Arwyn, Ciltrefnus, ar enedigaeth mab, Ned. Mae hyn yn gwneud Richard Ogwen a Rhian, Yr Ardd Fawr, yn daid a nain am y tro cyntaf, ac Ogwena, Pen y Clwt, yn nain hefyd. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd, a phob dymuniad da i chi.

Brysiwch wella
Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau at Eurwen Morris, Y Garnedd, Ffordd Abercaseg, sydd

wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Mae hi adref bellach, ac rydym yn dymuno'r gorau iddi. Cymerwch bethau'n ysgafn am dipyn yn awr, Eurwen, er mwyn gwella'n llwyr a buan.

Cofion
Rydym yn anfon ein cofion at Len a Megan Williams, Ffordd Gerlan, wedi i'r ddau dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Braf yw gweld bod y ddau adref bellach. Pob dymuniad am adferiad llwyr i'r ddau ohonoch gan bawb o drigolion y pentref.

Ysbyty
Mae Emma Davies, Stryd y Ffynnon, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Bellach mae hi adref, ac yn gwella. Pob dymuniad am wellhad llwyr iti, Emma.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau mawr i Wayne a Tracey Sherlock, Ciltrefnus, ar ddod yn daid a nain i Thomas, mab bychan i'w merch, Dena, a'i phartner, Ben, sy'n byw yn Adwy'r Nant.

Dod yn hen nain unwaith eto
Llongyfarchiadau i Joan Edwards, Glanrafon, ar ddod yn hen nain unwaith eto, a hynny i Thomas, mab ei hŵyr, Ben, a'i bartner Dena. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd fel teulu.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Paula Williams, Ffordd Gerlan, ar lwyddo yn ei phrawf gyrru, a hynny ar y tro cyntaf . Da iawn chdi, Paula!

Y Clwb Cymdeithasol
Yn ystod mis Awst clywsom Owie Williams, Maes y Garnedd, ond gynt o Stryd y Ffynnon, yn siarad efo Siân Cothi ar ei rhaglen ar y radio. Sôn yr oedd am y Clwb Cymdeithasol sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd yn y Caban, ac roedd yn disgrifio'r llwyddiant rhyfeddol a gafodd. Braf oedd clywed y sgwrs estynedig a difyr am y Clwb Cymdeithasol o'i gychwyn i'r presennol, a gweld ei fod yn mynd o nerth i nerth. Rydym, hefyd, yn dymuno'r gorau i Owie ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod y mis hwn. Llongyfarchiadau mawr, Owie, a phob dymuniad da ar dy ben-blwydd arbennig,

Diolch
Dymuna Nia, Eryl, a Dylan ddiolch i'r teulu, ffrindiau, a'r cymdogion am eu caredigrwydd yn ystod eu profedigaeth fawr o golli mam annwyl, y ddiweddar Beryl Williams, Stryd Goronwy. Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, galwadau ffôn, rhoddion, a chardiau. Diolch yn fawr i bawb!

Llongyfarchiadau
Rydym yn llongyfarch pawb o bobl ifanc yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu gwahanol arholiadau yr haf hwn, ac yn dymuno'r gorau i bob un ohonynt yng nghampau nesaf eu gyrfa.

Pob dymuniad da, hefyd, i bob un sy'n cychwyn, neu newid ysgol yn awr, neu'n symud ymlaen i gwrs coleg, neu hyfforddiant. Hwyl fawr i chi i gyd.

Llongyfarch Teulu
Dymuniadau gorau i deulu Llwyn Rhandir, Ciltwillan: Siwan yn ei swydd fel ymchwilydd yn y Tŷ Cyffredin yn Llundain; Siân yn dechrau fel athrawes Saesneg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac Osian yn cychwyn ar gwrs yn y Coleg Technegol ym Mangor.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ 600965

Priodas
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Bethan Wyn a Huw Wyn Jones, 3 Brynteg a briododd yn ystod mis Awst yn y Rhyl. Pob dymuniad da iddynt.

Cartref Newydd
Dymuniadau gorau yn eu cartref newydd i Myrddyn a Gwen, a oedd yn byw yn Ffordd Carneddi. Maent bellach wedi ymgartrefu yn Llanfairfechan. Mae’n siwr na fyddwch yn cadw’n rhy ddieithr o Fethesda.

Diolch
Dymuna Victor Roberts, 6 Rhos Cilfodan ddiolch i bawb am y cardiau, yr anrhegion a’r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 oed ar 22ain Mehefin.

Gwella
Rydym yn falch o ddeall bod Catrin Roberts, Llain, Ffordd Carneddi yn gwella ar ôl damwain ar ei gwyliau. Pob dymuniad da iddi.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Diolchiadau
Mae Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn, a’r teulu, yn dymuno diolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant drwy’r amser y bu John yn wael, ac am y gofal a dderbyniodd yng nghartref arbennig Plas y Bryn, Bontnewydd.


Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a fu’n gysur mawr. Gwerthfawrogir yr arian a dderbyniwyd tuag at Ganser y Fron a’r Gymdeithas Alzheimers. Diolch i’r Parchedig Geraint Hughes am ei wasanaeth ddydd yr angladd, a’r Ymgymerwr Gareth Williams am drefniadau trylwyr ac urddasol.

Diolch hefyd yw neges Gwynfor a Nerys Jones, Llys Hedd, a’r teulu, am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Tecwyn, brawd Gwynfor, yn ddiweddar. Anfonwyd y rhoddion at Ymchwil y Galon. Diolch o galon i bawb.

Nain a Thaid
Mae Colin a Delyth Jeffries, Llangoed, Nant y Graen, wedi dod yn Daid a Nain eto i fachgen bach, sef Gruffydd William, mab i Sioned a Huw yn Abercaseg. Llongyfarchiadau mawr, Taid a Nain!

Arholiadau
Llongyfarchiadau i bawb o bobl ieuanc yr ardal sydd wedi cael llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A a TGAU.

Cofion
Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn dda o unrhyw anhwylder, gan ddymuno gwellhad buan i chwi i gyd.



Llwyddiant
Mae gwanwyn a haf 2013 wedi bod yn gyfnod eithriadol o lwyddiannus i Elfed Jackson, y ffermwr a’r cneifiwr o Nant Ffrancon. Mae bellach yn Bencampwr Cneifio Cymru, Lleogr, yr Alban ac Iwerddon. Daeth Elfed i’r brig mewn o leiaf ddeg o gystadlaethau cneifio ar hyd a lled Cymru, Lleogr, yr Alban ac Iwerddon gan gynnwys cystadlaethau yn yr *All Ireland Sheep Shearing* yng Nghorc, y *Royal Bath and West of England*, y *Royal Highland* yn yr Alban, y *Great Yorkshire a Lakeland*, heb anghofio cystadlaethau yn Lllysfas, Corwen a Llanbed ac wrth gwrs prif sioe amaethyddol Cymru, Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

Mae Elfed bellach wedi ennill Cylchdaith Cneifio Cymru am y 6ed tro yn olynol ac wedi cynrychioli Cymru am yr 8fed tro ym Mhencampwriaeth y Byd y *Golden Shears* yn Gorey, Iwerddon. Yn ogystal â hynny, mae wedi gwneud nifer o arddangosfeydd cneifio gan gynnwys un ym Mhabell Ffermwyr Ifanc Clwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a bydd yng Ngŵyl Fwyd Conwy ddiwedd mis Hydref. Ardderchog wir Elfed, a phob lwc i ti yn y dyfodol!

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Brawd yn Cofio
Gan ddwys gofio am y diweddar Dr. Gwilym Rees Hughes; un o hogia Rachub a Chaellwyngrydd.

Bu farw Gwilym ar 3 Ebrill yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd o ganlyniad i strôc. Yr oedd yn wyth deg tri mlwydd oed.

Roedd yn fab i Gretta a Leonard Hughes o Water St. gynt, ac yn frawd i Idris.

Addysgwyd Gwilym yn Ysgol Rachub ac Ysgol Cownti Bethesda.

Ar ôl sbelan fach yn y Llu Awyr aeth i Brifysgol Bangor i astudio’r Gymraeg ac yno y sicrhodd ei BA, MA, a PhD yn y Gymraeg.

Bu’n dysgu yn Lerpwl ar ôl gadael Bangor ac yna cafodd swydd fel darlithydd yng Ngholeg Caerleon sydd bellach yn rhan o Brifysgol De Cymru.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Briwnant, Amlogfa Thornhill ond fe gladdwyd ei lwch ym Mynwent Eglwys St. Llechid ar ddiwedd Awst.

Ychydig iawn o gyfoedion Gwilym Rees sydd ar ôl bellach yn yr hen bentref:

Cyfaill neu ddau a’m cofiant Prin ddau; lle’r oedd gynnuau gant. (Goronwy Owen)

Ac wedi dweud hynny; hyd yn oed os nad oes ond dau ; yna nid yw'n ofer.

Idris Rees Hughes (Canada)
Brawd y diweddar
Dr Gwilym Rees Hughes

Diolch

Mae pwyllgor Llais Ogwan am ddiolch i Brian a Gwenda Jones, Bron Arfon am eu gwaith o ddosbarthu Llais Ogwan yn ardal Rachub am nifer o flynyddoedd. Maent bellach yn cymryd seibiant haeddiannol gyda Siân Esmor yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o hyn allan. Diolch iddynt am eu gwaith a hefyd dymuniadau gorau i Brian a Gwenda ar eu hymddeoliad o'u swyddi yn y byd addysg.

CANOLFAN RACHUB - Bydd y Ganolfan ar gau nes y bydd y llawr wedi cael ei drwsio. Mae'r pwyllgor yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleuster a achosir oherwydd hyn.

Capel Carmel, Llanllechid

Cynhaliwyd mabolgampau llwyddiannus ar y cyd gydag Ysgolion Sul Bethlehem, Pendref a Charmel ar gaeau Ysgol y Garnedd. Mwynhaodd pawb eu hunain ar noson hyfryd o braf yn ystod mis Gorffennaf.



Y plant yn cael seibiant wedi'r holl gampau

Mae'r Ysgol Sul bellach wedi ailddechrau ac mae croeso i unrhyw blentyn ddod atom o'r newydd. Ailddechreuodd y Clwb Dwylo Prysur hefyd, yn ogystal â'r Clwb Gwaith Llaw sy'n cyfarfod ar brynhawniau Llun. Yr un yw'r gwahoddiad a'r croeso i ymuno â ni.

Capel Bethel

Medi:
22 – Parch. Dewi Morris
29 – y Barch. Eleri Lloyd Jones

Hydref
06 – Dr Tudor Ellis
13 – Gweinidog
20 – Mr Alun Wyn Rowlands
27 – Parch. Dafydd Job

Oedfaon am 2.00
Croeso Cynnes i Bawb

Taith Gerddwd Lwyddiannus

Unwaith eto eleni cynhaliwyd taith gerdded lwyddiannus dan ofal Raymond ac Ann Tugwell. Mae'r daith yn profi’n llwyddiant bob blwyddyn ac nid oedd eleni’n wahanol. 'Roedd y tywydd yn braf a daeth criw da, llawn hwyl i gymryd rhan yn y daith. `trwy garedigrwydd Cwmni Bws Padarn fe aeth bws deulawr â'r cerddwyr o Glwb Rygbi Bethesda at Lyn Ogwen cyn iddynt hwythau gychwyn ar y daith i lawr y nant. Gorffennwyd yn ôl yn y Clwb Rygbi ond nid cyn cael picnic a baratowyd gan Ann. Casglwyd £4057 a rhannwyd yr arian yn lleol fel a ganlyn:

£1557 - C.L.I.C (Cancr a liwcemia mewn plentyndod) Ysbyty Gwynedd. Derbyniwyd swm o £50 gan Stella Davies a'r teulu, er cof am Wyn Davies (Bronydd). £2000 - Ward Alaw Ysbyty Gwynedd (er cof am Janet Moore) yr arian i'w wario ar offer i'r ward. £400 - i brynu rhewgell i Gapel Carmel £100 - i Gylch Ti a Fi, Rachub i brynu offer angenrheidiol. Mae Raymond am ddiolch i'r holl gerddwyr a'r noddwyr. Diolch i Gwmni Bws Padarn, Popty Cae'r Groes am y brechdanau, Jonathan (Londis) am y diod a'r creision a hefyd am gasglu cymaint o

Capel Carmel
Trefn Gwasanaethau

Medi
22 Gweinidog am 2.00 a 5.00
29 Parch. Dewi T. Morris 2.00

Hydref
06 Parch Trefor Jones – 5.00
13 Diolchgarwch: Gweinidog 2.00
Oedfa’r Ysgol Sul am 5.00
20 Parch/Ddr Sion Aled Owen – am 2.00

Ysgol Sul am 10.30am

Dwylo Prysur nos Wener am 6.30pm

Te Bach Dydd Llun, Medi 23, 2.30 hyd 4.00
Croeso cynnes i bawb

noddwyr, gyda help Leanne wrth gwrs. Stella Davies a Sandra Moore am y rhoddion tuag at y picnic ac i Anti Doris, Fferm am ei haelioni. Os oes rhywun eisiau enwebu elusen ar gyfer y daith flwyddyn nesaf bydd Raymond neu Ann yn falch o glywed gennych. Ffon 01248 601077.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Gillian a'r teulu ar achlysur trist o golli mam, nain a hen nain annwyl dros ben. Bu farw Eirlys Morgan Maes Bleddyn (gynt Tanrallt) yn 87 mlwydd oed wedi iddi ddioddef salwch ers rhai misoedd. Personoliaeth hawddgar a thawel oedd gan Mrs Morgan ac roedd yn un a wynebodd dreialon bywyd gyda dewrder. Arferai gerdded yn ddyddiol ar ffyrdd yr ardal tuag at Bethesda ar ryw neges neu’i gilydd. Cynhaliwyd ei hangladd ar Awst 29 ym mynwent Coetmor.

Llwyddiant Arholiad
Mae Anti Meg a theulu Bron Bethel am anfon llongyfarchiadau at Siôn Elwyn, Bryn Ogwen,

Bethel ar ei lwyddiant yn ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Iaith a Llenyddiaeth Cymraeg ym Mangor. Enillodd hefyd wobr Syr John Morris Jones am gael y canlyniadau gorau yn y flwyddyn. Mab yw Siôn i John Elwyn a Deilwen, a brawd i Manon sydd newydd orffen ei blwyddyn gyntaf yn astudio’r Gymraeg ym Mangor. Dymuniadau da i Siôn pan ddechreuith ei gwrs M.A. ym Mangor yn yr hydref.

Llwyddiant Eisteddfodol
Llongyfarchiadau i Dilwyn Pritchard, Bron Arfon, ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd y wobr gyntaf am ysgrifennu darn newyddiadurol am gêm bêl-droed ddi-sgôr rhwng Everton ac Aston Villa ym Mharc Goodison. Yn ôl y beirniad Dylan Jones, “Yn union fel golwyr y gêm, cafodd Y Golwr hwn (sef ffugenw Dilwyn) hwyl dda iawn arni”.

Dechrau Tymor
Anfonwn ein dymuniadau a'n llongyfarchiadau at nifer yn yr ardal sydd wedi cael llwyddiant mewn arholiadau yn yr ysgol a'r coleg dros yr haf. Bydd newid byd ar nifer a fydd yn cychwyn mewn gwahanol golegau ac i eraill ifancach sydd yn cychwyn ar y llwybr addysgiadol. Pob hwyl a dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Cylch Ti a Fi
Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Llais ymddangos bydd y Cylch wedi ailagor. Am fwy o fanylion cysylltwch â Keilly ar 01248 602874.

Cylch Hanes Rachub a Llanllechid
Bydd y cylch yn cyfarfod yn Ffestri Capel Carmel am 7.00 o'r gloch ar nos Fercher, 25 Medi. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl a byddai'n dda cael rhannu eich gwybodaeth am hanes yr ardal. Os oes lluniau ar gael tybed a fydddech yn fodlon dod â hwy gyda chwi i ddangos. Fe'ch gwelwn ar 25 Medi felly.

Pen-blwydd Priodas
Ar 24 Medi bydd Bryn a Sue Evans, Bron Arfon, yn dathlu eu priodas arian. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cynllun Gerddi Cenedlaethol
Dymuna Jennifer a John, Lllys y Gwynt, ddiolch o galon i bawb a ddaeth i’r diwrnod agored ar 7 Gorffennaf pan wnaed elw o £946 er budd elusennau. Hoffem ninnau ddiolch i Jennifer a John am weithio mor galed a chadw eu gardd yn agored er ein lles ni – ’roedd yn werth ei gweld.

Bingo
Cynhaliwyd noson Bingo ar nos Fawrth, 20 Awst, yn Neuadd Talgai

er budd y Neuadd, a gwnaethpwyd yr elw sylweddol o £96. Diolch yn fawr i Pauline a Raymond am drefnu’r Bingo, i’r rhai a fu’n gweini, ac i bawb arall am ymuno yn yr hwyl. Roedd y criw yn mynd yn llai bob tro, ond daeth tro ar fyd ac mae rhai newydd wedi ymuno – mae Pauline a Raymond wrth eu bodd! Bydd croeso i bawb ar y trydydd nos Fawrth yn y mis – dewch yn llw!

Cleifion
Roeddem yn falch o glywed fod Dr Pam Jones a Mrs Joy Radcliffe wedi dychwelyd o’r ysbyty a bod y ddwy yn gwella ac wedi dechrau codi allan. Cofiw’n mis hwn eto am Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Cassie Tindall, Betty Williams, Dorothy Proudley-Williams ac unrhyw un arall sydd yn wael.

Barbeciw yr Haf
Ddydd Sadwrn, 17 Awst, cafwyd barbeciw ar y ‘Green’ yn y pentref ac er y gwynt a’r glaw yn ystod y dydd fe ddaeth yr haul i wenu. Roedd digon i’w fwyta a phawb wedi cael amser da. Diolch arbennig i Kevin a Linda a hefyd i’r gwŷr a’r gwragedd a fu’n brysur yn trefnu noson mor lwyddiannus – a phawb wedi byhafio!

Pen-blwydd Arbennig



Roedd yna barti mawr yn 23 Pentre Llandygái ar brynhawn Mercher, 28 Awst, a mwyafrif y pentrefwyr yn bresennol, gan fod Eirlys yn dathlu pen-blwydd arbennig. Sôn am wledd! Roedd rhywbeth at ddant pawb yno. Roedd yr haul yn tywynnu, yr ardd yn werth i’w gweld, a phawb yn gyfeillgar iawn. Diolch o galon i Eirlys, Dei, a’r pedair merch landeg a fu’n gweini arnom mor rhagorol drwy gydol y prynhawn.

Cydymdeimlo
Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Madge Bentley (Tregarth a Thalybont gynt) a fu farw yn Ysbyty Glan Clwyd ar 5 Gorffennaf yn 97 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd ar 12 Gorffennaf yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn ag Ann, Jimmy a’r teulu oll yn eu profedigaeth. Rydym yn dal â chysylltiad agos â theulu Bentley gan fod nai Jack, sef Roy Bentley a Maureen yn aelodau yn Sant Tegai.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Miss Nerys Jones a Beryl ei chwaer a’r teulu i gyd ar farwolaeth Mrs Nicole Odette Patricia Davies yn 68 mlwydd oed, gwraig y diweddar Eric Davies gynt o Drefelin, Llandygái. Cynhaliwyd ei gwasanaeth coffa yn yr Eglwys ddydd Mawrth, 20 Awst a chladdwyd ei llwch ym mynwent yr Eglwys. Trist iawn i’r teulu gan mai tri mis yn ôl y bu gwasanaeth coffa ei gŵr, Eric.

Roedd yn wir ddrwg gennym glywed am farwolaeth Mr Peter Stuart Blackmore, Sax, Sbaen, a fu farw ar 18 Gorffennaf yn 61 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei wasanaeth coffa yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd Gwener, 2 Awst. Cydymdeimlwn â phawb o’r teulu yn eu profedigaeth drist yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Mrs Phyllis Davies (Eglwys Maes y Groes) a’r teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli chwaer Phyllis ar 13 Awst, sef Mrs Owenna Edwards, 6 Llys Geraint, Tan y Bryn, Bangor.

Cleifion
Cofiw’n mis hwn eto am ein cyfeillion sydd wedi bod yn wael mewn ysbytai neu yn eu cartrefi. Roeddem yn hynod falch fod Wynne Edwards a Joy Radcliffe wedi dod adref o’r ysbyty ac yn gwella bob dydd. Anfonwn ein dymuniadau da at Jane Couch, Harry Gross ac Olwen Lytham – brysiwch wella!

Bore Coffi
Ar fore Sadwrn, 27 Gorffennaf, cawsom ein Bore Coffi yng nghartref Hefina Chamberlain yn y Berllan, a gwnaed elw o dros £250 i’r eglwys. Diolch yn fawr i Hefina am ei chroeso cynnes, i aelodau’r eglwys am eu cymorth parod ac i bawb a oedd yn bresennol.

Dathlu
Dymunwn ddiolch i Hefina a’r teulu am eu croeso ar ddydd Sadwrn, 22 Mehefin, i barti pen-blwydd arbennig Hefina. Daeth nifer fawr o’i ffrindiau o bell ac agos i ddathlu gyda hi. Cawsom wledd i’w chofio er gwaethaf y gwynt a’r glaw. I ddangos ei gwerthfawrogiad i Emma, Suzy, Heather a’u teuluoedd am fod yn gymaint o gysur iddi,, aeth â hwy am wyliau i Ffrainc am bythefnos a chawsant amser gwych.

Ffair Haf
Ar ddydd Sadwrn, 13 Gorffennaf, cynhaliwyd garddwest yn Ficerdy Pentir a bu’n llwyddiant mawr eleni eto, gyda’r elw o £1,200 i’w rannu rhwng y tair eglwys. Roedd y tywydd yn braf, pawb yn gyfeillgar, a’r trefnwyr a’r rhai a oedd yn edrych ar ôl y stondinau wedi gwneud gwaith canmoladwy dros ben. Yr oedd yr ‘hot dogs’, y teisennau, y te a’r coffi wrth fodd pawb – diwrnod i’w gofio. Braf oedd croesawu’r Hybarch Paul Davies, Archddiacon Bangor, a Jo Udall, Ysgrifennydd Esgob Caergaint, i agor yr arddwest.

Priodas
Llongyfarchiadau i Gwilym a Katerina ar eu priodas yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd Sadwrn, 17 Awst. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews, gyda Geraint Gill wrth yr organ. Mae Gwilym yn fab i Dr a Mrs Robin Davies a Katerina yn dod o Tsiecoslofacia. Hir oes a phob hapusrwydd i’r pâr ifanc.

Bedydd
Ar fore Sul, 18 Awst, yng ngwasanaeth y Cymun, bedyddiwyd Archie, ŵyr bach i Michael Thynne a gor-ŵyr i’r ddiweddar Joan Tocker. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchedig John Matthews a Geraint Gill oedd yr organydd – bendith Duw ar Archie a’r teulu.

Noson Barddoniaeth a Cherdd
Ar nos Iau, y cyntaf o Awst, bu noson o Farddoniaeth a Cherdd yng nghwmni Mr Richard Douglas-Pennant, Stuart Silver, Hugh a’r Parchedig John Matthews. Cafwyd datganiad ar yr organ gan ein ficer, a Richard a Stuart yn barddoni i gyfeiliant Hugh ar y piano. Gwnaed elw o £270 i gronfa’r atgyweirio. Wedi’r cyngerdd cafwyd bwffe yn y Neuadd a bu’n noson ddifyr iawn. Diolch i John, Richard, Stuart a Hugh am eu cyfraniadau ac i bawb arall a oedd yn bresennol.

Llwyddiant Addysgol
Llongyfarchiadau i Angus, Bod Eilian, Llandygái, ar lwyddo’n anrhydeddus yn ei arholiadau TGAU yn ystod yr haf eleni. Cafodd raddau campus – 10 A*. Pob llwyddiant i ti eto, Angus, yn Ysgol Friars – mae’n siwr fod athrawon Hillgrove yn falch iawn o’th lwyddiant, fel dy fam a’th dad reit siwr.

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Susan a Ross, 45 Bro Infryn, ar ddod yn nain a thaid a chroeso mawr i Efan James Roberts, mab Sioned a James. Mae’r teulu bach yn byw yn Nhregarth.

Priodas
Llongyfarchiadau a phob dymuniad a da i Marian Bryfdir a Dewi, Bro Eryri, Waen Wen, ar eu priodas yn ddiweddar.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Mrs Alwen Gardner, Bryn Gwredog Ganol ar farwolaeth ei mam, Mrs Margaret Williams, Tyddyn Bach, Caerhun.

Bingo
Cynhelir y Bingo nesaf yn y Ganolfan ar 4 Hydref am 7.30 y.h. Croeso cynnes i bawb, dewch yn llw - mae hwyl i gael wrth godi arian at achosion da!

Clwb Cant y Ganolfan
Gorffennaf
£20 - 83 - Mike Bowen
£10 - 14 - Ann Jos
£ 5 - 66 - Mrs Shaklady
£ 5 - 107 - Mary V Williams

Awst
£20 - 67 - Anita
£10 - 47 - Beryl Williams
£ 5 - 137 - Ann Williams
£ 5 - 69 - Dorothy Parry

Diolch, a’r Stiwdio Llais
Dymuna Marian Bryfdir a’i gŵr Dewi Jones ddiolch am y dymuniadau gorau ar achlysur eu priodas ym mis Gorffennaf. Hefyd, diolch am y croeso yn eu cynefin newydd (Waen Wen a Glasingfryn). Bydd "Y Stiwdio Llais" yn ailagor ym mis Medi. Y cyfeiriad newydd yw Bro Eryri, Waen Wen, Bangor LL57 4UF a'r rhif cyswllt i ddisgyblion canu (hen a newydd) yw 01248 361702. Agorwyd y "Stiwdio" newydd gan John Hywel (cyn-bennaeth Adran Gerdd Prifysgol Bangor) ar y 13 Gorffennaf a bu perfformiadau agoriadol gan Peter Helsby Jones (sacsoffon), Nell Gwynn (contralto) a Nigel Sutton (gitâr).

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Edward Oliver,
5 Arafon (1917 – 2013)
Codwn gofeb i undebwr – a alwodd Am hawliau chwarelwr;
O’r hen wlad, a’r stâd a’i stŵr,
Y werin gollodd arwr.
Dilwyn Owen

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Leia ar basio arholiad Lefel A gan y teulu i gyd, a phob lwc!

Llongyfarchiadau hefyd i Katarina ar basio’r arholiadau a phob hwyl i ti yn y coleg ym Mangor.

Geni
Llongyfarchiadau i Alan a Maria ar enedigaeth merch fach. Dymunwn y gorau i chwi fel teulu.

Croeso
Croeso adref i Margaret Williams, Tanybwllch, sydd wedi bod yn yr ysbyty, gan fawr obeithio eich bod yn teimlo’n well!

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

Diwrnod Hwyl



Ar ddydd Sadwrn, 3 Awst, cynhaliodd Grŵp Cymunedol Talybont ddiwrnod o hwyl yn Festri Capel Bethlehem i godi arian at gael adnoddau chwarae i’r pentref. Cafwyd diwrnod llwyddiannus, a dyma lun un neu ddau o’r gweithgareddau :-



Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i Mark a Bethan Kendrick a’r teulu, 4 Lon Ddŵr, yn eu profedigaeth o golli mam Mark yn sydyn. Hefyd i Rhian Haf, 36 Bro Emrys, yn dilyn marwolaeth mam Rhian yn Llanfairynghornwy, Sir Fôn. Hoffai Rhian a’r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ac am y rhoddion tuag at Feddygfa Cemaes.



Diwrnod Graddio
Dyma lun o Jean Hughes, 3 Talybont, yn derbyn ei gradd gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, ym Mhrifysgol Bangor yn ystod mis Awst

Eglwys Maes y Groes, Talybont

Cynhaliwyd yr Arddwest Flynyddol ar Sadwrn, 13 Gorffennaf, yn ficerdy Pentir. Buom yn lwcus o dywydd braf ac roedd llawer yn bresennol. Gwnaed elw o £1,110 i’w rannu rhwng y tair eglwys.

Diolch yn fawr i bawb am y rhoddion ac am eu gwaith caled o drefnu’r pnawn ac i bawb am ein cefnogi ar y diwrnod.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Phyllis Davies a’r teulu ar achlysur trist marwolaeth Owena Edwards, chwaer Phyllis, o Tan y Bryn, Bangor. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Eglwys gyda’r Parchedig John Matthews yn arwain a Martin Brown wrth yr organ. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Hoffai’r teulu i gyd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar ddiwrnod yr angladd a hefyd am y cardiau a’r rhoddion er cof am Owena at y Cancr.

Treuliodd Gracie Griffiths, Llwyn y Wern rai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd ond erbyn hyn mae hi gartref ac yn gwella’n foddhaol.

Estynnwn ein cydymdeimlad a Gwen a Myrfyn Hughes a’r teulu. Collodd Gwen ei brawd, Gwilym, yn frawychus o sydyn ddiwedd mis Awst.

Dymunwn bob hapusrwydd i Gwen a Myrfyn yn eu cartref newydd yn Llanfairfechan. Parhau mae’r bore coffi yn yr Ysgoldy ar fore Mawrth cyntaf o’r mis rhwng 10:30 a 12:00 o’r gloch.

Hefyd fe fydd “Café Church” yn ail-gychwyn ar yr ail Sul o’r mis am 2 o’r gloch yn yr Ysgoldy. Croeso cynnes i bawb.

Capel Bethlehem

Cyhoeddiadau

Medi
22 Parch Cledwyn Williams;
29 Parch Dafydd Coetmor Williams;
Hydref
06 Gweinidog ;
13 Mrs. Mair Penri Roberts
20 Parchg. Dafydd Job.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul
Bu rhai o’r plant yn mwynhau mabolgampau ar gaeau Ysgol y Garnedd ym mis Gorffennaf. Roedd plant Ysgolion Sul Pendref a Charmel yno hefyd. Cafwyd digon o hwyl!

Bwrlwm Bethlehem
Ni lwyddwyd i gychwyn y cyfarfodydd ar 5 Medi oherwydd amgylchiadau. Ailgychwynnwyd ar brynhawn Iau, Medi 12, am 2.15. Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Medi a bob bythefnos wedyn.

Colli Aelod
Newydd drwg oedd clywed am farwolaeth Mr John Edward Jones, Bro Awel, Dolhelyg, yng

Nghartref Nyrsio Penisarwaun ar 3 Awst. Roed yn 85 mlwydd oed. Gwasanaethwyd ddydd ei angladd, yn y tŷ ac ym Mynwent Pentir, gan ei weinidog, y Parchedig Geraint Hughes. Yn yr oedfa gyntaf wedi’r gwyliau fe gydymdeimlwyd â’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Penblwyddi Arbennig
Llongyfarchiadau i ddwy aelod a gyrhaeddodd eu penblwyddi yn 80 mlwydd oed yn ystod mis Awst, sef Mrs. Augusta Williams a Mrs. Rose Thomas.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 - Mis Gorffennaf

1af **Rhif 43** Ann Illsley, Pentir
2ail **Rhif 57** Alvan G Jones, Rhiwlas
3ydd **Rhif 36** Ellis Davies, Llanllyfni

Clwb 100 - Mis Awst

1af **Rhif 46** David E Williams, Glasinfryn
2ail **Rhif 30** Mair Roberts, Rhiwlas
3ydd **Rhif 69** Dylan Griffith, Pentir

Gwellhad
Anfonwn ein cofion fel Eglwys at Eira Crocombe, Tai Teilwriaid, Tregarth, sydd wedi cael anaf ar ôl anffawd yn ei chartref, a Bill Perry, Glyn Cottage, Nant y Garth, sydd ddim yn dda ei iechyd. Dymunwn wellhad buan i’r ddau ohonoch.

Gwasanaethau’r Sul
22.9.13 Cymun Bendigaid 9.45am
29.9.13 Gwasanaeth ar y Cyd 10am
Eglwys y Santes Fair a’r Santes Ann, Mynydd Llandegái
6.10.13 Gwasanaeth Diolchgarwch 9.45am
13.10.13 Boreol Weddi 9.45am
20.10.13 Cymun Bendigaid 9.45am
27.10.13 Boreol Weddi 9.45am

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

Eisteddfod i’w chofio
Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn yn Ninbych eleni, yr orau yn ôl rhai ers sawl blwyddyn. Yn sicr hon oedd yr orau erioed i Bet Jones, Bryn Seiriol, gan mai hi

enillodd Wobr Goffa Daniel Owen. Pleser i’r rhai oedd yn y Pafiliwn, a’r rhai a wyliai gartref ar y teledu, oedd ei gweld yn codi yng nghanol y dorf ar ganiad y Corn Gwlad.

Cafwyd hufen ar y gacen pan gyhoeddodd y Parch. R Alun Evans, oedd â gofal o’r seremoni, mai Bet Jones o Rhiwlas ger Bangor oedd enillydd Medal Daniel Owen, Eisteddfod Dinbych a’r Cylch 2013, gyda’i nofel ‘Craciau’.

‘Craciau’ yw’r drydedd nofel i Bet ei hysgrifennu. Daeth yn agos iawn i’r brig yng nghystadlueaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol y Fflint, 2007, gyda’i nofel gyntaf, ‘Beti Bwt’, oedd yn ddarlun o’i magwraeth ym mhentref Trefor. Yn 2009 cyhoeddodd yr ail, sef ‘Gadael Lennon’ - nofel yn seiliedig ar y cyfnod pan oedd yn athrawes yn Lerpwl. Rydym fel pentrefwyr yn cydlawenhau â hi yn ei llwyddiant ac yn diolch iddi am roddi Rhiwlas ar y map.

Yn ôl rhai a ddarllenodd ‘Craciau’, mae’n nofel sydd yn gafael o’r cychwyn ac yn parhau felly hyd y diwedd. Mae ar werth yn y siopau llyfrau am y pris o £8.95.

Profedigaeth
Bu farw Gwyndaf Owen yn ei gartref yn Llandaf, Caerdydd, ar 19 Awst. Magwyd Gwyndaf yn 3 Carreg-y-Gath, yn fab i Mr a Mrs Robert Owen. Fe barhâi i gyfrif ei hun yn ‘un o hogia Rhiwlas’ er iddo dreulio y rhan helaethaf o’i oes yng Nghaerdydd. Wedi gadael Ysgol Dyffryn Ogwen aeth Gwyndaf i weithio fel gohebydd ar bapurau’r Herald yng Nghaernarfon, cyn cael ei benodi fel gohebydd yn adran newyddion y B.B.C. Bu’n weithgar iawn yn ei gymdogaeth yn ardal Rhiwbeina, yn enwedig yng Nghapel Bethel. Ef oedd Ysgrifennydd y capel, swydd y bu’n ei llenwi am 30 o flynyddoedd, yn ogystal â bod yn organydd yr un pryd. Cofiwn mai yng Nghapel Pisgah, Rhiwlas, y bwriodd Gwyndaf ei brentisiaeth fel organydd, yn yr oedfaon ac yn yr Ysgol Sul.

Cydymdeimlwn yn gywir â Mair ei wraig – sydd yn wreiddiol o’r Felinheli – a chyda’r plant, Alun ac Elen.

Geni
Llongyfarchiadau i Sioned Wyn a Tirion Roberts, Jasmine Cottage, ar enedigaeth eu hail fab, sef Noa Jac. Brawd derbyniol iawn i Evan Jac, ac ŵyr i Eric a Lis Jones, Penisarwaun, a Cefin a Rhian Roberts, Bangor. Dymunwn iechyd a hapusrwydd iddynt fel teulu.

Ardal Gynhyrchiol
Yn fuan ar gynffon llwyddiant Bet Jones yn Eisteddfod Dinbych, llwyddiant a arweiniodd at

gyhoeddi ei thrydedd nofel, daeth y newydd bod un arall o ferched Rhiwlas wedi cyhoeddi ei thrydedd nofel hithau. ‘Canu’n y Co’ yw teitl nofel ddiweddaraf Annes Glynn, Bwthyn Cefn Braich. Cofiwn i Annes ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod 2004 am ei chyfrol ‘Symudliw’ ac fe fu’n brysur yn ysgrifennu byth ers hynny, Ond ni chyfyngodd ei dawn i ryddiaith yn unig. Dechreuodd fynychu dosbarth cynganeddu, a daeth hyn â llwyddiant cynnar iddi. Fe’i clywyd ar y radio fel aelod o dîm Dyffryn Ogwen ar Talwrn y Beirdd, yn ogystal â chyrraedd y brig mewn nifer o eisteddfodau.

Gwyddom hefyd am ddiddordeb Annes mewn cerddoriaeth ac ymddengys mai’r diddordeb yma, ynghyd â’i phrofiad o ganu mewn gwahanol gorau, a roddodd iddi’r syniad, yn ogystal â’r cymeriadau, ar gyfer ‘Canu’n y Co’.

Cyhoeddir ‘Canu’n y Co’ gan Wasg Gomer am y pris o £7.99.

Tra’n llongyfarch Bet ac Annes, mae’n drist cyfeirio at y newid sylweddol fu yn ein pentref yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Daeth terfyn ar bron pob digwyddiad diwylliannol a phrin yw unrhyw gyfle i gymdeithasu erbyn hyn. Dylid diolch fodd bynnag i’r dynmaid o ffyddloniaid sydd yn parhau’n weithgar – gweddiill y gymdeithas gynhaliol – ac sydd yn parhau i ymdrech i gadw’r fflam rhag diffodd.

Diolch
Ar ôl llwyddiant TGAU o 5 A* a 6A, dymuna Reece Halstead o 19 Bron y Waun ddiolch i bawb am y cardiau, arian, a’r negeseuon a dderbyniodd ar ‘Facebook’. Llongyfarchiadau i Reece a phob hwyl iddo yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol Friars.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Eisteddfod
Llongyfarchiadau calonnog i Bryony Keyse, Ty’n Clwt Isaf, ar ennill y gystadleuaeth canu’r piano dros 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a’r Cyffiniau. Mae Bryony ar hyn o bryd yn astudio cerdd yng Ngholeg y Guildhall yn Llundain ac mae’n bleser mawr gan Nain a’r teulu anfon eu llongyfarchiadau a’u dymuniadau gorau am fwy o lwyddiant yn y dyfodol.



Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Geraint, Anne a’r plant William a Catrin ym Mryn Teg, ar farwolaeth sydyn tad Geraint ym Mhlas Ogwen. Bu Gerry yn byw yma yn Nhregarth am nifer fawr o flynyddoedd, yn gyntaf yn Erw Faen lle magwyd Geraint a’i chwaer, Bethan, ac yn ddiweddar yn 6 Bro Syr Ifor. Bydd colled enfawr ar ei ôl fel tad a thaid annwyl a gofalus ac fel cymydog a ffrind rhadlon i lawer. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Bethan a’i theulu yng Nghaernarfon ac at Mark a’r hogiau yng Nghaergybi.

Diolch
Dymuna Mair, Siân ac Iwan, a theulu’r ddiweddar Megan Davies (Megan Post), 3, Ffrwd Galed, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, y galwadau ffôn, y cardiau a’r ymweliadau a dderbyniwyd, ac am y rhoddion tuag at Tŷ Gobaith er cof am Megan. Diolch yn arbennig i gymdogion a ffrindiau a fu mor ffyddlon iddi, ac i’r Parchedig Gwynfor Williams a’r Parchedig Alwyn Roberts am y gwasanaeth, ac i Mr Wyn Williams ar yr organ. Hefyd i’r Ymgymrwyr, H.O.Davies, am y trefniadau trylwyr.

Penb-lwydd Arbennig
Dymuniadau gorau i Mair Owen, Gwêl y Don, Graig Pandy oddi wrth Ann, Selwyn a’r teulu i gyd, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn 90 oed yn ystod mis Awst eleni.

Diolch
Dymuna Mair Owen ddiolch o galon i’w theulu a’i ffrindiau am y cardiau, y cyfarchion a’r rhoddion a dderbyniodd pan ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ystod mis Awst eleni.

Llwyddiant Academiaidd
Llwyddodd Elin Edwards, Rosedale, Penrall, Tregarth yn ei harholiadau Lefel A yn Ysgol Tryfan, Bangor a bydd yn astudio Seicoleg yng Ngholeg Metropolitan, Caerdydd ym mis Medi.

Un arall a lwyddodd yn ei harholiadau Lefel A yn Ysgol Dyffryn Ogwen oedd Mari Gwyn, Gorffwysfa, Sling. I Goleg Prifysgol Aberystwyth y bydd Mari yn mynd yn yr wythnosau nesa. Da iawn y ddwy ohonoch a dymuniadau gorau i’r dyfodol.

Chwarae Tennis yn Wimbledon
Mae Menna Edwards, Rosedale, Penrall, yn giamstar am chwarae tennis ac yn cael hwyl fawr ar y gamp. Yn dilyn ei llwyddiant wrth chwarae i dîm Ieuencid Gogledd Cymru, cafodd fynd ar daith i Wimbledon ym Mis Awst. Yn Wimbledon bu’n chwarae ar y cyrtiau enwog a chafodd y ffrind o gyfarfod â Tim Henman. Mae Menna yn cael ei hyfforddi yng Nghlwb Tennis Caernarfon a chafodd ei dewis i chwarae yn y gystadleuaeth ‘Road to Wimbledon’. Ardderchog Menna.

Dathlu pen-blwydd
Llongyfarchiadau i Beti Whitehead, gynt o Gorwel Dêg, Tregarth, ond yn awr yn cartrefu yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 85 mlwydd oed ar 17 Awst eleni. Mae Nigel a Kevin, ei meibion, a’r holl deulu yn dymuno diolch i bawb a fu mor garedig ag anfon cardiau, rhoddion a’u dymuniadau da ati ac yn gwerthfawrogi eu caredigrwydd.

Genedigaeth
Ar 24 Mehefin ganed mab, sef Cian Rhys, i Steven a Hannah Owen a brawd bach newydd i Nel. Llongyfarchiadau i chi fel teulu ac i Nain a Taid, Tregarth, sef Peter a Lynda Owen, Tarinth, ac Eddy ac Angie Long, y Fali Ynys Môn.

Ar 20 Gorffennaf ganed Nel Glyn yn Ysbyty Gwynedd i Bethan a Dylan Roberts, Erw Wen, Talgae, Tregarth. Llongyfarchiadau mawr i chithau a’r holl deulu yn Nyffryn Ogwen ar enedigaeth Nel.
Parhad dros y dudalen

Pura Vida!



Ddywedodd neb wrtha i y byddai dod adra yn galetach ’na hedfan draw i gyfandir dieithr, miloedd o filltiroedd i ffwrdd o bopeth cyfarwydd. Ond, wedi treulio blwyddyn yn gwneud ffrindiau a chreu atgofion, roeddwn wedi syrthio mewn cariad â gwlad, ei phobl, a’i phlant.



Fy mlwyddyn wirfoddol oedd y peth gorau dw i erioed wedi ei wneud - rhoddodd i mi y cyfle i ddysgu iaith ac i fyw mewn modd cwbl wahanol i’r hyn oedd gen i yng Nghymru. Mae Honduras yn gartref i’r ddinas fwyaf beryglus yn y byd ac mae yn y newyddion am lofruddiaethau a masnachu cyffuriau gydag ystadegau sy’n achosi i wledydd eraill gadw hyd braich. Ond fe gefais i gyfle i fyw a gweld gwir ochr y wlad, ochr sydd wedi fy ngadael yn hiraethu am ei chynhesrwydd a’i gonestrwydd.

Mewn deuddeg mis cefais y fath brofiadau! Dod yn athrawes, dysgu iaith newydd, syrthio mewn cariad â theulu o blant (ac oedolion!). Profiadau sydd wedi newid fy mywyd a fy ffordd o feddwl. Heb gefnogaeth teulu a ffrindiau, ni fyddai hyn wedi bod yn bosib. Am hyn, fydda i’n ddiolchgar am byth.

Baner Cymru wedi cyrraedd Honduras

Mali Parry Owen

Tregarth (parhad)

Llwyddiant Academaidd
Llongyfarchiadau mawr i bawb o’r ardal sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau ysgol a choleg. Mae yna amryw ohonoch. Beth am adael i ni wybod am eich llwyddiant ar gyfer y Llais nesa?

Llongyfarchiadau
i Shân Robinson, Ffordd Tanrhiw ar ei llwyddiant yn ennill gradd MA gyda rhagoriaeth mewn Astudiaethau Merched ym Mhrifysgol Bangor.



Merch Glyn a Mona Williams, Lynona, Tregarth yw Shân, ac mae’n briod â Chris Robinson, yn fam i Emily a Lucy, ac yn chwaer i Steven a Gwyn. Dathlodd y teulu ei llwyddiant yn y seremoni raddio a gynhaliwyd ddydd Mawrth 16 Gorffennaf. “Da iawn ti Shân, mae’r teulu yn hynod falch ohonot, cariad mawr.”

Graddiodd **John Howard Jones**, 37 Tal y Cae, ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau i chithau John.

Llwyddodd **Lois Angharad Jones**, 30 Tal y Cae, yn ei harholiadau Lefel A yn Ysgol Dyffryn Ogwen a bydd yn cychwyn ar ei chwrs gradd mewn Cyfrifeg ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi.

Llwyddodd **Lois Glyn**, Nant yr Eira, 35 Tal y Cae, yn ei harholiadau Lefel A yn Ysgol Tryfan a bydd hithau yn dilyn Gradd yn y Gyfraith yng Nghaerdydd.

Daeth newyddion am **Lowri Jones**, merch Bleddyn Jones, Craig y Pandy, fu’n llwyddiannus yn Ysgol y Creuddyn yn ei harholiadau Lefel A. I Aberystwyth y bydd Lowri yn mynd i astudio Daearyddiaeth. Pob dymuniad da i’r tair ohonoch.

Mewn Ysbytai
Bu amryw o drigolion y pentref mewn ysbytai yn ddiweddar. Yn Ysbyty Walton, Lerpwl y bu Olga Davies, Hen Berllan, Dob, a chafodd lawdriniaeth ar ei chefn.

Bu Andrew Hughes, Gwern Eithin yn Ysbyty Gwynedd a chafodd lawdriniaeth ddiwedd mis Awst.

Teithio i Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, y bu Ann Hughes, Ffordd Tanrhiw, a hynny am rai wythnosau ar gyfer triniaeth. Ar hyn o bryd mae Mona Jones, Ffordd Tanrhiw, yn Ysbyty Gwynedd. Dyma’r ail dro yn ystod

yr wythnosau diwethaf iddi orfod aros yn yr ysbyty.

Cafodd Margaret Pritchard, Ffordd Tanrhiw lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ddiwedd Awst. Cofion a gwellhad llwyr a buan i bob un ohonoch.

Profedigaeth
Trist oedd clywed am farwolaeth Madge Bentley yn Ysbyty Glan Clwyd ar 5 Gorffennaf a hithau’n 97 mlwydd oed. Bu’n byw am gyfnod yn Ffordd Tanrhiw, Tregarth ac yn Nhalybont. Cydymdeimlwn â’i merch Anne a’r teulu yn eu tristwch. Bu ei hangladd yn Amlogsgfa Bangor ar 12 Gorffennaf.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Gwenllian Nest Owen, Meillionydd, Tal y Cae, a fu farw yn ei chartref ar 25 Awst yn 83 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad llwyraf â’i phriod Trefor Meredith, y plant Huw, Gruff a Mared, yr wyron Sion, Dylan, Marsli, Dafydd, Catrin ac Ilan, ei chwaer Marian a’r holl deulu yn eu galar. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogsgfa Bangor a chynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng Nghapel Shiloh, Tregarth ar 3 Medi.

Capel Shiloh

Gwasanaethau
Yr Ysgol Sul 10.30
Oedfa’r Hwyr 5.00

Medi
15 Diacon Stephen Roe, Porthaethwy
22 Parch. Philip Barnett, Deganwy
29 Parchedig Eric Roberts, Caeathro

Hydref
06 Parch Gwynfor Williams
13 Oedfa Deulu dan ofal yr Ysgol Sul 10.30
20 Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
21 Oedfa Ddiolchgarwch dan ofal y Parchedig Philip Barnett 6.00
29 Islwyn Hughes, Llangoed

Cafwyd colled fawr arall yn Shiloh gyda marwolaeth Gwenllian Nest Owen. Er ein bod yn gwybod nad oedd Gwen yn dda ei hiechyd ers tro ac wedi bod ar fwy nag un achlysur yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn Ysbyty yn Birmingham, eto fe ddaeth y diwedd yn sydyn ac annisgwyl.

Bydd colled fawr ar ei hôl fel aelod gweithgar a thawel yn Shiloh a gwelir ei cholli’n fawr. Meddylw’n am Trefor, y plant, yr wyron a’r gorwyron a’i hunig chwaer Marian yn ystod y cyfnod o golli un oedd yn annwyl iawn yn eu golwg ac yn ein golwg ni i gyd sydd yn aelodau yn Shiloh.

Anfonwn ein cydymdeimlad atynt. Roedd y gwasanaeth angladdol yn Amlogsgfa Bangor dan ofal ei gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams a dilynwyd hynny gyda gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd.

Bu’r Parchedig Gwynfor Williams, y Parchedig Gwyn Thomas, Pwllheli, Mair Owen, Mynytho, Gwenda Davies, Tregarth a Llinos Owen, Penygroes yn cymryd rhan yn y capel.

Eglwys y Santes Fair Tregarth

Gwasanaethau:
Medi
29 Cymun Diolchgarwch 10.30
Hwyrol Weddi 5.30

Hydref
06 Gwasanaeth Anffurfiol
13 Cymun Bendigaidd
20 Boreol Weddi
27 Cymun Bendigaidd

Pob gwasanaeth am 9.45a.m.

Clwb Cant Gorffennaf
£20 48 Sarah Griffiths
£10 36 Pat Jones
£ 5 98 Muriel Williams

Clwb Cant Awst
£15 69 Vera Jones
£10 25 Myra Jones
£ 5 14 Ian Russell

Te Bach
Ar 30 Gorffennaf a 26 Awst
Cawson ‘De Bach’
llwyddiannus yn yr eglwys.
Braf iawn oedd gweld cynifer wedi dod i fwynhau panad a chacen – a digon o sgwrsio yn mynd ymlaen! Diolch yn fawr i bawb a wnaeth gefnogi, a diolch arbennig i Rhian a Ceri – y ddwy weinyddes.

Swper Cynhaeaf
Cynhelir Swper Cynhaeaf ar ddydd Mawrth, 1 Hydref, am 6.30 yn yr eglwys. Pryd o fwyd ac adloniant am £5.

Merched y Wawr Tregarth
Daeth cychwyn ar dymor newydd o’r gangen yma yn Nhregarth, nos Lun, 2 Medi yn Shiloh, a hynny ar yr amser newydd o 7.30. Cafwyd noson ardderchog sef Bwffe a Phianydd.

Croesawyd pawb gan y llywydd, Gwenda Davies, a braf oedd gweld aelodau newydd wedi mentro am y tro cyntaf.

Roedd rhaglen newydd sbon ar gyfer pawb a diolchodd Gwenda i’r ysgrifennydd, Anwen Griffiths, y trysorydd, Olwen Jones, ac aelodau’r pwyllgor am baratoi rhaglen ddiddorol a llawn.

Cydymdeimlwyd â theulu un o’r aelodau fu farw ar ddiwedd mis Awst sef Gwenllian Owen, Meillionydd. Bu Gwen yn aelod o’r gangen am 26 o flynyddoedd. Byddwn yn colli ei chwmni a’i diddordeb mawr ym mhopeth o’i chwmpas.

Braf oedd cael llongyfarch Margaret Jones, Cae Drain a’i merch Jên Margiad Temple Morris, Tan y Garth, Bethesda ar eu llwyddiant yn Sioe Frenhinol Llanelwedd. Daeth prif wobwr Celf a Chrefft pabell Merched y Wawr i dîm Arfon ac roedd Margaret a Jên wedi paratoi gwaith bendigedig fel rhan o’r tîm. Anfonwyd cofion at rai o’r gangen fu’n wael yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan i bob un ohonynt gan gyfeirio at Mona Jones sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Cawsom gyfle i wrando ar ddatganiad ar y piano gan ferch ifanc bedair ar ddeg oed o Fangor, sef Gwenno Morgan. Mae Gwenno’n ddisgybl yn Ysgol Tryfan ac yn cael ei hyfforddi gan Sioned Webb ac Iwan Llywelyn Jones yng Nghanolfan William Mathias yng Nghaernarfon. Cafodd pawb oedd yn bresennol eu gwefreiddio gan ei chyflwyniad llafar a’i chwarae medrus a hynny heb gopi o fath yn y byd o’i blaen. Mae’n amlwg fod dyfodol disglair iawn iddi yn y byd cerddorol.

Atgoffwyd ni ei bod wedi ennill y Ruban Glas offerynnol dan 16 mlwydd oed yn Eisteddfod Wrecsam yn 2011 a hithau ond yn 12 mlwydd oed. Eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych daeth i’r brig yn y gystadleuaeth deuawd piano gyda Math Roberts o Lanrug.

Diolchwyd iddi gan Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, am roi noson safonol dros ben a diolchwyd i’r pwyllgor am baratoi gwledd o luniaeth ar ddiwedd y noson.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar 6 Hydref, sef noson yng nghwmni Cadi Iolen yn siarad am ei gwaith yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Croeso cynnes iawn i Festri Shiloh am 7.30 o’r gloch.

Cerddorfa Ieuencid Cymru
Bu Elin Kervegant, Tan Dderwen a Gwyn Owen, 9 Tal y Cae ar gyrsiau ac yn perfformio mewn cyngherddau yng Nghymru, Lloegr a’r Almaen yn ystod yr haf.

Mae Elin yn chwarae’r soddgrwth a Gwyn yn drympedwr. Cafodd Gwyn wahoddiad i chwarae ei drymped yng nghyngerdd *Cerddwn Ymlaen* yng Nghastell Caernarfon ar ddiwedd y daith a wnaeth Rhys Meirion ac eraill o Abertawe i Gaernarfon er mwyn casglu arian at Ambiwlans Awyr. Llongyfarchiadau i’r ddau gerddor dawnus.

Anrhydedd Arbennig
Ar Orffennaf 15 cafodd Gwilym Owen, 9 Tal y Cae, y fraint o dderbyn Cymrodoriaeth Dysgu gan y Brifysgol ym Mangor. Cafodd ei enwebu am ddatblygu Strategaethau dysgu gwreiddiol, yn ogystal â’i waith bugeiliol.

Mae Gwilym yn ddarlithydd yn Adran y Gyfraith ym Mangor. Llongyfarchiadau ar yr anrhydedd Gwilym.



Gwilym a Gwyn Owen

Bryan Jones

*Clirio tai
Mân-weithiau
Cludiant ysgafn*

(Waeth pa mor fychan y dasg)

Ffôn: 01286 673121

Ffôn Lôn: 07527634023

e-bost: bryanrajonesandson@yahoo.co.uk
www.facebook.com/bryanrajonesandson

**Nyth y Gân**

Un o wobrau pwysicaf yr Eisteddfod Genedlaethol yw Medal Goffa Syr T.H. Parry-Williams. Fe'i cyflwynir i unigolyn sydd wedi gweithio'n wirfoddol i hyrwyddo'n diwylliant yn ei ardal leol, efo pwyslais arbennig ar yr ifanc. Fel y gwyddoch, yr enillydd eleni oedd Dorothy Jones, Llangwm. Darlledwyd rhaglen deledu amdani, ac un o'r llefydd a ddangoswyd oedd Bwlch y Ffordd, Llangwm, tyddyn a fu'n gartref iddi am gyfnod. Ysbyrdolwyd Dafydd Morris i lunio telyneg i'r llecyn hyfryd.

Bwlch y Ffordd
Mor hen yw muriau'r tyddyn
A chadarn dan lwyd gen,
A'r llw o lechi gleision
Yn goron ar ei ben.

O'r tir y caed y meini
I'w gosod oll ynghyd
O'u trin gan grefftwyr cynnar
I godi'r aelwyd glyd.

Y dderwen gref yn bennaf
Ddewiswyd ger y llain
Ar gyfer ffurfio'r trawstiau
A'r 'chydig ddodrefn cain.

Mae'r adeiladau eraill
I gyd yr un mor llwyd
Ond eto'n dwt a threfnus
Fel clymau sydd ar rwyd.

Dal yno ger y cilbost
Mae enw'r tyddyn tlws
Ac yn Gymraeg mae'r croeso
Tu ôl i bob un drws.

Mae'r tyddyn ac mae'r dirwedd
Yn briod ers cyn co',
A'r iaith o hyd yn atsain
Perthynas glòs â'r fro.

Dafydd Morris

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni **Amlwch** **Benllech**
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*

Ffôn: 01286 870605

**Posh Paws
Tacluso Cŵn**


Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
E-bost: juliaposhpaws@btinternet.com

Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver

Taith 4 - Pont Sarnau a Phont Ring



Cychwyn o faes parcio Plas Ffrancon gan fynd allan drwy’r brif fynedfa a throi i’r chwith. Ymlaen heibio croesffordd Coetmor i gyfeiriad y Stryd Fawr. Ychydig ffordd i lawr yr allt, (dros y ffordd i’r gyfnewidfa ffôn a thŷ melyn) throwch i’r dde drwy giât fochyn i lwybr Cae Gas. Cadwch at y llwybr ar y dde gyda’r ffens.

I lawr at y Lôn Bost a chroesi’n ofalus ac anelu i gyfeiriad Bangor. Heibio i garej newydd ar y chwith (hen garej Noel Lloyd) ac ymlaen nes cyrraedd giat a chamfa gerrig wrth ei hochor. Mae arwydd llwybr cyhoeddus ac arwydd 40 bach yma. Rhaid bod yn ofalus wrth fynd dros y gamfa. Cerdded i lawr y llwybr i gyfeiriad Afon Ogwen a mynd drwy ddwy giat fochyn newydd i gyrraedd y llwybr beics newydd.

Dilynwch y llwybr beicio i’r chwith ar hyd ymyl y caeau rygbi nes cyrraedd Pont Sarnau. Croesi’r bont a syth i fyny am Ffrancon View a’r lôn gefn. Hon yw’r rhan fwyaf serth o’r daith. Troi i’r chwith gan gerdded heibio’r Stad Ddiwydiannol ac anelu am y Felin Fawr ar y dde. Dilynwch arwyddion y llwybr beic a chroesi’r lein fach i fynd o dan bont Coed y Parc sydd ar y chwith.

Dilynwch Lôn Las Ogwen ar hyd godrau’r tomenydd ac ymhen rhyw ddeng munud fe welwch fframwaith y “Weiren Wib” newydd sydd ar ben tomen Ty’n Tŵr. Ymhen 5 munud arall, ac wedi mynd o gwmpas godre’r domen, bydd hen ysgol Ty’n Tŵr oddi tanoch ar y chwith. Ewch ymlaen rownd y tro ac fe welwch arwydd “Arhoswch ar y llwybr” o’ch blaen. Throwch i’r chwith oddi ar y Lôn Las cyn cyrraedd yr arwydd a dilyn y llwybr heibio talcen hen dŷ’r ysgol. Byddwch yn ofalus yn fan hyn gan fod y grisiau yn dod allan yn syth i’r ffordd.

Ewch i’r chwith heibio tai Ty’n Tŵr. Ychydig ar ôl arwydd plentyn ac oedolyn (siâp triogl), throwch i’r dde i Lwybr y Llawfeddyg. Mae hwn yn llwybr gwerth chweil drwy Barc Meurig sy’n dilyn yr afon at Bont Ring (Pont yr Inn bellach wedi mynd yn Pont Ring). Croeswch y bont ac fe ddowch allan yn y Stryd Fawr rhwng Capel Mawr (Arafa Don) a siop “nymbyr wan”.

Ewch ar draws y Stryd Fawr ac i fyny heibio Gorffwysfan am Stryd John. Dilyn y stryd i fyny at y ffordd sy’n mynd i’r maes parcio. Anwybyddwch y grisiau ac ewch yn syth ymlaen. Troi i’r chwith ac i lawr y lôn. Yng ngwaelod y ffordd, troi i’r dde heibio’r rhinws (Gorsaf Heddlu) a cherdded i fyny heibio cefnau tai Rhes Bryntirion. Ar y gornel, cadw i’r dde, dilyn y ffens ac ymuno â llwybr hen chwarel Pantdreiniog gan gerdded i fyny i gyfeiriad Carneddi. Cyn bo hir, fe welwch arwydd Llwybr Cyhoeddus (wrth groesffordd o lwybrau) sy’n mynd â chi i’r chwith yn ôl am faes parcio Plas Ffrancon.

Amser: Tuag awr a hanner

Pellter: Ychydig dros 3 milltir

Offer: Esgidiau addas. Llwybrau da - dim rhannau gwlyb - dim rhy serth

Taith Feicio

Yn ddiweddar trefnwyd taith feicio i godi arian er mwyn codi cofeb i gofio milwyr o Gymru a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cychwynnodd y daith o Glwb Rygbi Bangor gyda 8 o feicwyr. Bydd eraill yn ymuno ar y daith a fydd yn gorffen yn Lagemark, Fflandrys ar 14 Medi. Bydd mwy o wybodaeth y mis nesaf.



Jill King, Mynydd Llandygái, a Cemlyn Williams, Erw Las.

Wu Shu Kwan

Yn ddiweddar, mae Jade Fitzpatrick, 16 mlwydd oed, wedi pasio ei Gwregys Du (Black Belt) yn Wu Shu Kwan o flaen y Grand Master C. K. Chang yn Llundain. Llongyfarchiadau iddi! Mae Wu Shu Kwan Kung Fu (neu Bocsio Cic Tsieineaidd) yn sefydliad byd-eang, ac roedd yn rhaid iddi arddangos ei gwybodaeth o’r gelfyddyd yn ogystal ag ymladd sawl gwrthwynebydd. Ar ddiwedd y diwrnod 10 awr roedd rhaid iddi daro tomen o deils gyda’i drwn, torri bloc adeiladu gydag ochr ei llaw a chicio styllen bren oedd gyn uchod â’i phen, er mwyn arddangos ei bod yn gallu danfon pŵer yn y ffordd gywir. Mae Jade wedi bod yn hyfforddi gyda’i rhieni, Jake ac Elena ers yn 5 mlwydd oed, ac mae hi bellach yn cymryd Dosbarth Tregarth (bob dydd Mercher rhwng 6.30 ac 8.30). Am ragor o wybodaeth ewch i www.wushukwan.com neu ffoniwch Jade, Jake neu Elena, ar 01248 602416.



Jade gyda’i thad a’i mam

YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Ymgymwrw adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrw Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**
†
**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 - 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00
01248 600219

www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN

(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

‘Llwch Ymhobman a Llanastr’ gan William Arthur Jones, Rhiwlas

Cyhoeddwyd yr ysgrif hon gyntaf yn y Gwyliedydd Newydd, papur enwadol yr Eglwys Fethodistaidd yn Hydref 1969.
Bu William Arthur Jones farw ym mis Medi 1976 yn 64 mlwydd oed.

Y mae llawer o siarad y dyddiau hyn am gau chwareli llechi yng Ngogledd Cymru, ac y mae gwahanol farnau ynglŷn â'r achos. Ai mantais ai anfantais yw cau'r chwareli?

Gŵyr y rhai a fu'n gweithio ynddynt fod gwaith y chwarelwr wedi bod yn waith caled iawn ar hyd y blynyddoedd, a hynny am gyflog bychan iawn. Yn wir, y mae rhai yn cofio'r adeg pan fyddai dynion yn gorfod mynd ag arian o'u cartrefi i'r chwarel i dalu i'r bechgyn a fyddai'n gweithio iddynt. Yr oeddynt yn gorfod gweithio o doriad gwawr hyd nes y byddai wedi tywyllu, ac wedyn cerdded rhyw awr a hanner o daith i ardaloedd fel Rhiwlas a lleoedd cyffelyb.

Gwir fod pethau wedi newid erbyn hyn, ond ni newidiodd un peth – y peth pwysicaf oll – sef effaith gwaith y chwarel ar y rhai a fu'n gweithio yno. Er eu bod, efallai, wedi ymadael â'r chwarel ers rhai blynyddoedd y mae'r difrod i'w hiechyd wedi'i wneud gan llwch y llechi.

Effaith y llwch

Os eir i ysbytai Gogledd Cymru, i Abergele, Llangwyfan, Bryn Seiont, Caernarfon, a Machynlleth fe welir fod mwy na hanner y cleifion ynddynt yn chwarelwyr yn dioddef o effaith y llwch. Y mae'r afiechyd hwn wedi lladd miloedd, ond yn amser ein tadau a'n teidiau yr enw parchus ar yr afiechyd oedd y dicau neu efallai bronchitis – rhag cydnabod mai effaith y chwarel ydoedd. Gorfu i lawer un roi'r gorau i'w waith drwy effaith y llwch, a hynny heb geiniog o iawndal. Edrychwn hefyd ar ein mynwentydd a chawn weld cyfartaledd oed y chwarelwyr a gladdwyd ynddynt. Tybed felly, mewn difrif, nad mantais yw cau y chwareli?

“Prin ddau lle bu gynnu gant”

Cofiaf weld dau lwyth bws yn mynd o Riwlas i chwarel Bethesda, ond heddiw dau ddyn yn unig sydd yn mynd, a chyn pen blwyddyn bydd y ddau yn ymddeol ac ni fydd neb yn mynd o gwbl. Mewn ardal fechan fel Rhiwlas mae pedwar ar ddeg ohonom yn dioddef oddi wrth y llwch, ond beth am ardaloedd mwy? Mentraf ddweud pe caed y cyfrif o bob ardal yng Ngogledd Cymru y buasem yn gweld fod y nifer yn gannoedd lawer. Teg fyddai i rywun ofyn imi paham yr euthum i'r chwarel o gwbl, a hawdd yw ateb. Euthum i'r chwarel o orfodaeth gan nad oedd unman arall i fynd ar ôl ymadael â'r ysgol.

Trugaredd

Credaf mai gweithred o drugaredd yw cau'r chwareli, ac yn hytrach na siarad am eu hagog a chael gwaith ynddynt i rai dros hanner cant oed. Dylid chwilio am waith arall ar gyfer chwarelwyr di-waith cyn i'r afiechyd eu difetha. Cydymdeimlaf â'r rhai sydd heb waith, ond yr wyf yn cydymdeimlo mwy fyth â'r rhai sydd, fel minnau, wedi eu difetha am byth gan llwch y llechi, ac nid wyf yn awyddus i weld eraill yn mynd i'r un cyflwr.

Fy marn onest yw na ddylid siarad am agor y chwareli. Dylid yn hytrach weithredu i sicrhau gwaith yn eu lle, ac anghofio'r chwareli am byth.

CHWILAIR MIS MEDI 2013																			
Testunau																			
A	A	B	E	I	R	D	D	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V
B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H
U	Z	M	X	V	A	F	F	E	I	R	I	A	U	D	D	N	A	P	A
U	Q	U	M	A	S	N	A	C	H	W	Y	R	S	O	F	R	P	Y	Q
Z	E	N	I	L	L	W	Y	R	Y	G	O	R	O	N	S	G	T	R	H
C	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	H	I	F	A	D	X
U	P	W	R	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	T	O	E	I	G	E
O	D	M	H	E	P	T	T	C	B	B	C	U	U	E	P	J	N	P	L
T	M	D	I	V	V	D	C	B	B	F	R	F	O	A	W	G	E	J	V
I	I	R	U	R	X	I	M	H	T	T	O	S	K	L	E	O	W	P	W
R	C	M	K	E	C	B	O	R	C	X	V	R	Y	O	J	H	Y	S	T
M	R	E	F	Y	F	J	N	D	Z	H	B	C	W	D	O	O	D	S	C
R	A	I	X	N	I	S	L	Y	X	J	J	M	B	E	N	W	D	T	E
X	M	D	X	K	F	U	R	P	W	C	Q	Y	O	I	E	I	L	F	E
R	Z	Q	R	O	C	T	D	O	G	D	W	S	L	R	S	Z	E	B	E
A	J	K	J	C	L	N	L	R	G	V	D	O	G	I	J	P	W	P	G
E	I	S	T	E	D	D	F	O	D	S	O	E	W	D	J	J	Q	U	L
F	L	L	E	F	Y	D	D	C	Y	M	R	U	H	D	S	V	T	X	E
U	G	N	O	I	R	O	T	C	A	H	S	L	Z	M	E	A	F	X	I
W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	Y	I	K	O	G	D

Y mis yma mae enw deuddeg TESTUN sydd wedi ymddangos yn y chwilair dros y blynyddoedd diwethaf. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH), ayb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Mae yn rhaid i mi ymddiheuro i Mrs G. Clark, Ffynnon Wen, Tregarth, am adael ei henw allan o'r rhestr o ymgeiswyr a gafodd yr atebion cywir i chwilair Mehefin. Ond mae'n rhaid fy mod wedi cael maddeuant ganddi, gan ei bod wedi rhoi cynnig ar chwilair Gorffennaf. Dyma atebion Gorffennaf: Aderyn Pur, Ar Hyd y Nos, Bachgen Bach o Dincer, Canu fel Cana'r Aderyn, Dacw Mam yn Dwad, Deryn y Bwn o'r Bala, Gee Ceffyl Bach, Lawr ar Lan y Môr, Mi Welais Jac y Dô, Oes Gafr Eto, Rownd yn Horn, Ysbryd y Nos.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir. John a Meirwen Hughes, Abergele; Barbara Owen, Rhos y Nant; Rosemary Williams, Tregarth; Arwyn Griffiths, Gerlan; Lois Angharad Hughes, Gerlan; Elizabeth Buckley, Tregarth; Ogwena Griffith, Gerlan; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Margaret Williams, Abererch; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Glenys Roberts, Hen Barc; Liz Hughes, Braichmelyn; Mrs Glenys Clark, Ffynnon Wen, Tregarth; Eirlys Edwards, Central Garage Bethesda; Myra Ball, Tynclwt, Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth. Enillydd Gorffennaf oedd Elizabeth Buckley 32 Maes Ogwen Tregarth LL57 4NG.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW erbyn 2 Hydref. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r sawl sydd agosaf at hynny fydd yn cael y wobwr.

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau yn Nyffryn Ogwen rhwng 1841 a 1845

1845 (tua)

- Geni David Williams (Dafydd Siôn y Felin) ym Melin Coetmor. Agorodd fusnes i gario pobl – y cyntaf yn yr ardal, mae’n debyg, i lawr i Fangor a ‘rownd y pas’, mewn brêc go fawr yn cael ei thynnu gan bedwar ceffyl ac yn cario oddeutu 20 o bobl. Ar ôl 1884, cododd yr Ogwen Hotel ger yr orsaf reilffordd. Taflwyd ef gan ei geffyl ym Medi 1901 a bu farw. Claddwyd ef ym Mynwent Glanogwen. Parhaodd ei feibion (Willie Dafydd a Dafydd Henry) i redeg y busnes.

1845

- Codi Capel Hermon, Mynydd Llandegai.
- Codi Capel Peniel (MC), Mynydd Llandegai. Ei agor: 19-20/09/1845.
- 500 aelod o’r pum lodge leol o’r Independent Order of Oddfellows, 300 aelod o’r Gwir Iforiaid ac aelodau o’r Ogwen Benefit Society yn gorymdeithio drwy Fethesda.

1846

- Hugh [Derfel] Hughes yn dod i fyw i Blwyf Llanllechid.
- Codi Capel Amana, Mynydd Llandegai.
- Yr ysgolfeistr yn yr ysgol a gynhelid yn yr ystafell o dan Gapel Bethesda oedd ‘hen sowldiwr unfraich, meddw. Ni fu fawr o lewyrch arni, ac ni pharhaes yn hir. Yr oedd yno fwy o chwarae na dysgu, ac oherwydd ei feddwod bu raid i’r sowldiwr ymadael’.
- Pum Cyfrinfa gan yr Odyddion ym Methesda: Y ‘Penrhyn’ a’r ‘Victoria’ yn y Percival Arms, ‘Prince Llewelyn’ yn y Sportsman, ‘Bethesda’ yn y Queens, a Chyfrinfa ‘Llechid’ yn y Red Lion.

1847

- Geni John Elias Davies (Telynor y Gogledd), mab Elias Davies, drygist, groser, dilledydd. Bu farw’n 36 oed. Ym 1868, aeth i gadw’r Royal Oak Inn neu Dŷ’r Delyn [Regent House yn yr 1950au] tan tua diwedd yr ‘80au – canolfan datgeiniad lleol, megis Wil Ty’n Llidiart, Ben Jeri, Twm Bowlyn, a Wil a Jac Tŷ Hen.
- Meddai Hugh Derfel: ‘Saint y Dyddiau Diweddfaf’ yn dod i Fethesda o Ferthyr i weithio fel miners. Rhoddent bwyslais ar Lyfr Mormon ac ar aml-wreiciaeth. Buont yma am 8-10 mlynedd ond wedi i ‘fechgyn y Gloddfa eu pwyso a’u cael yn brin yng nghlorian y cysegr, ymadawsant am gymdogaeth y Llys Halen yn America’.
- Codi Eglwys Tanysgafell ar draul Edward Gordon Douglas Pennant.

1847

- Dwy Gyfrinfa a thri chant o aelodau gan y Gwir Iforiaid yn yr ardal. Byddai Cyfrinfa Gomer yn cyfarfod yn y King’s Arms a Chyfrinfa’r Tywysog Llewelyn yn cyfarfod yn y King’s Head.
- Ebrill 1847: Cyflawni un o’r triniaethau llawfeddygol cyntaf yn Ewrop lle defnyddiwyd anaesthetig. Rhoddodd Dr Hamilton Roberts ether i’w anadlu am bedwar munud i chwarelwr a anafwyd; torrwyd ei goes i ffwrdd tra oedd dan ddylanwad y cyffur.

1848

- Cyhoeddi Gramadeg Cerddoriaeth, David Roberts (Alawydd).

1849

- Ffurio Côr Braichmelyn. William Morris oedd yr arweinydd, gŵr nad oedd ganddo ond un llygad ac a ddilynasai ddosbarthiadau cerdd ac Ysgol Gân Alawydd. Ffurfiwyd y côr yn gynnar yn 1849 ar ôl cyfarfod dirwest nodedig pan anerchwyd gan Dr Arthur Jones, Bangor, mab-yng-nghyfraith Twm o’r Nant. Cynhaliodd y côr gyngherddau ym Môn ac Arfon a chyn belled â Lerpwl a Manceinion. Cenedd darnau o weithiau Handel, anthemau gan gyfansoddwyr lleol, caneuon dirwestol, a llawer iawn o ‘glees’ Saesneg. Awr fawr y Côr oedd pan dderbyniodd wahoddiad i ganu yn yr Exeter Hall, Llundain. Gosodwyd y Côr ar flaen yr orymdaith ddirwestol drwy strydoedd Llundain yn ystod Arddangosfa Fawr 1851. Nid oedd William Morris ond 24 oed pan sefydlodd y Côr. Yn 1853, ac yntau’n 28 oed, ymfudodd ef a’i gôr bron i gyd i America, i Bangor, Pennsylvania. Rhoddwyd enw newydd ar y Côr – y Cambrian Minstrels ond daeth i ben yn 1856. Yn 1869, bu farw William Morris o’r teiffoid yn 44 oed ac yn dad i 6 o blant.

I’w barhau

Croesair Medi 2013

AR DRAWS

- 7 Y Fam Forwyn (4)
- 8 Mae’r amser wedi dod, “Daeth yr ---” (3)
- 9 Y Gair olaf ! (4)
- 10 Bro ein cefndryd agosaf (6)
- 11 Ie, canu amdanom yn ein maboed (6)
- 12 Cefnfor (3)
- 13 Gwobr tramp (6)
- 14 Llafurwr (6)
- 16 Sarff (6)
- 19 Grŵp gwerin (6)
- 21 Yn China y mae’r hiraf, ond dymchwelwyd un yr Almaen (3)
- 22 Un wedi ei glwyfo (6)
- 24 I ddal wats (6)
- 25 Lle i chwarae criced os nad ydych fel hyn ! (4)
- 26 Un o organau mwyaf y corff (3)
- 27 Dweud (4)

I LAWR

- 1 Bydd ddistaw ! (6)
- 2 Talfyriad (8)
- 3 Neges ar y ffôn (6)
- 4 Amser yn treulio a mynd heibio (6)
- 5 Dweud anwiredd wrth droi’r tir (4)
- 6 1/6d erstalwm (6)
- 15 Cafodd Rhonabwy, Macsén a’r Bardd Cwsg un (8)
- 17 Cyfieithiad campwaith y bardd o


- Abertawe, “Dan y -----” (6)
- 18 Dinesydd gwlad fawr ogleddol (6)
- 19 I ladd gwair (6)
- 20 Rhoi eich cyfan yn yr orchwyl (6)
- 23 Gorchymyn yr athrawes, “Dwylo i ----” (4)

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/AWST 2013

- AR DRAWS 1 Ellyllon, 5 Cocos, 9 Nofiasant, 10 Doe, 11 Sir, 12 Felinheli, 14 Epa, 16 Golud, 18 Ion, 19 Gwenwynig, 21 Tŵr, 22 Oel, 23 Di-ben-draw, 25 Garan, 26 Dydd Llun
- I LAWR 2 Llafur, 3 Llu arfog, 4 Nia, 5 Cetyn, 6 Cydweli, 7 Stesion Crewe, 8 Ynysoedd Groeg, 13 Lolyn, 15 Aneglur, 17 Digonedd, 20 Wedyn, 21 Tarfu, 24 Bad

Croeso’n ôl. Gobeithio i chi gael seibiant dymunol. Yr unig gamgymeriad o bwys a gafwyd i atebion croesair Gorffennaf/Awst oedd ‘tyrau’ yn hytrach na’r ateb cywir ‘tarfu’. Y cynnig cywir cyntaf allan o’r het y tro hwn oedd un **Sara a Gareth Oliver, Ty’n Clawdd, Tregarth, Bangor LL57 4AL**. Llongyfarchiadau i chi.

Da iawn y canlynol hefyd am gyflawni’r dasg yn llwyddiannus :



Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Gareth W. Jones, Bow Street; Menna Davies, John Edwards, Llanfairpwll; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; Doris Shaw, Bangor; John a Meirwen Hughes, Abergele; Barbara a Gwilym Owen, Rita Bullock, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Heulwen Evans, Rhiwlas; Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth.

Atebion erbyn dydd Mercher, 2 Hydref i ‘Croesair Medi’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:
Cyfeiriad:

Cangen Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf ar nos Fawrth 30ain. Croesawyd pawb gan Paul Rowlinson, ein Cadeirydd. Atgoffwyd pawb bod angen casglu lluniau os yn bosib ar gyfer llyfr “Hanes y Blaid”.

Oherwydd ei fod yn ymddeol wedi ei dymor presennol fel ein Aelod Cynulliad ’roedd rhaid dewis ymgeisydd yn lle Alun Ffred. Mewn cyfarfod ym Mangor dewiswyd Siân Gwenllian o’r Felinheli. Mae eisoes ar Gyngor Gwynedd ac yn aelod o’r Cabinet, gyda gofal am Addysg. Dymunwn yn dda iddi.

Yn yr un cyfarfod ailetholwyd Hywel Williams fel ein hymgeisydd ar gyfer sedd yn San Steffan.

Adroddwyd bod nifer o aelodau Cangen Dyffryn Ogwen wedi bod yn helpu gydag Is-etholiad Ynys Môn ac fe benderfynwyd anfon cyfraniad ariannol tuag at ymgyrch Rhun ap Iorwerth.

Ni threfnwyd boreau coffi er mwyn gweld beth fydd y sefyllfa gyda Neuadd Ogwen a byddwn yn pennu dyddiadau yn ein cyfarfod nesaf.

Cryn siomiant a gafwyd yn y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yn Nhalybont ynglŷn â’r llyfogydd a ddigwyddodd ym mis Tachwedd diwethaf. Nid oedd yr adroddiad a addawyd ar gael, felly roedd yn anodd trafod heb y swyddogion priodol. Diolch i Alun Ffred A.C. am ddod draw i gadeirio’r cyfarfod.

Bydd Hywel Williams A.S. yn cynnal cymhorthfa yn Rachub ar 20 Medi ac Alun Ffred yn Nhalybont ar 27 Medi.

Atgoffwyd pawb y cynhelir y Gynhadledd yn Aberystwyth ar Hydref 11 a 12.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk











Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



yn cyflwyno dwy daith arbennig

Crwydro Patagonia

Tros gyfnod y Pasg
Ebrill 13 – 22 2014

Taith wych a diddorol.
Cyfle i flasuo Buenos Aires, Bariloche, Esquel, Trefelin, Y Paith, Y Geiman a Threlew ynghyd â Phorth Madryn.
Blasu bywyd y Wladfa
Tywysydd profiadol.

Gwlad yr Iâ

Tachwedd 3 – 7 2013

Cyfle i weld rhyfeddodau'r wlad, yn eu plith y Blue Lagoon, Goleuadau'r Gogledd (Aurora Borealis) Y Cylch Aur (Golden Circle) a thaith o gwmpas tref Reykjavic.

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu,
Cysylltwch â Dafydd Owen
01286 881911 (dydd) 07771 525690 (symudol)
ebost : crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com

Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Gorffennaf, cynhaliwyd y bore coffi blynyddol yn Neuadd Ogwen (gydag Alun Pugh a Betty Williams yn bresennol) a gwnaed elw sylweddol at dreuliau’r gangen.

Yng nghanol y mis, aeth nifer o aelodau i gyfarfod Blynyddol Plaid Lafur Arfon, pryd etholwyd Louise Prendergast (Mynydd Llandygai) yn gadeirydd, a Tom Corns (Cameddi) yn Swyddog Addysg Wleidyddol.

Yn ystod y mis, bu rhai o’r aelodau yn helpu gydag ymgyrch etholiadol Sir Fôn ar gyfer y Cynulliad.

Yna, ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol, gan dderbyn adroddiadau am weithgareddau’r Plaid Lafur a’r cynghorau e.e. adroddiad yr arolygwyr ar adran addysg Cyngor Gwynedd – dim ond boddhaol ar y cyfan.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf. **JR**
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



**DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL**

**SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG**



BETHESDA

01248 600171

torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

**Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM**

**EWYLLYSIAU A
PHROFIANT**

SYMUD Tŷ

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723

Ffacs: 605068

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â
Mantell Gwynedd**



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**Hysbysebwrch
yn y Llais
600853**

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

**Malinda Hayward
(Gwniadwraig)**

**Awel Deg
Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch
01248 601164**

L. Sturrs
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

**Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30**

**Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi**

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
**Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth**

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Canlyniadau Arholiadau

Yr oedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol eleni yn ardderchog. Cafodd 85% o'r disgyblion yr hyn sy'n cyfateb i 5 o raddau A*- C, ac ni adawodd yr un disgybl heb ennill cymhwyster. Mae'r canlyniadau yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Roedd y canlyniadau yn dda iawn ar draws yr ystod gallu, ond mae'n rhaid rhoi clod arbennig i bum disgybl - Mari Davies, Jack Henry, Bethan Hughes, a'r efeilliaid Annest a Gwynfor Rowlinson am ganlyniadau gwirioneddol ardderchog. Canlyniad hyn yw bod mwy na hanner y flwyddyn wedi dychwelyd i'r Chweched Dosbarth eleni.

Yr oedd y canlyniadau Lefel A hefyd yn dda iawn gyda phob myfyriwr yn llwyddo i fynd i'r coleg neu ddilyn cwrs o'u dewis. Mae'n rhaid llongyfarch dwy yn arbennig am ganlyniadau rhagorol – Siân Mererid Jones a Mari Gwyn am ennill 3 gradd A yr un. Mae'r ddwy yn mynd i Brifysgol Aberystwyth.



Mari Gwyn a Siân Mererid Jones

Athrawon Newydd

Yr ydym yn croesawu dwy athrawes newydd ar ddechrau'r tymor, sef Mrs Nest Williams fel Pennaeth yr Adran Ddaeryddiaeth, a Mrs Siân Owen fel athrawes Saesneg. Croeso cynnes i'r ddwy.

Blwyddyn 7


Braf iawn oedd cael croesawu 70 disgybl newydd i flwyddyn 7 ar ddechrau'r tymor yma. Buont yma ar sawl ymweliad yn ystod blwyddyn 6 ac erbyn hyn wedi hen setlo!

Eisteddfod Powys

Llongyfarchiadau mawr i gôr yr ysgol ar gystadlu yn Eisteddfod Powys ar ddiwrnod olaf y tymor. Cafwyd perfformiad rhagorol ganddynt a daethant yn ail mewn cystadleuaeth dda iawn.

Newyddion Adran y Gymraeg

Taith 'Blodeuwedd'



Disgyblion blwyddyn 10 a fu'n gweld perfformiad Blodeuwedd yn Nhrawsfynydd

Ddydd Mercher, yr ail ar bymtheg o Orffennaf, aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 10 i weld perfformiad Theatr Genedlaethol Cymru o ddrama arbennig Saunders Lewis, *Blodeuwedd*. Perfformiwyd y ddrama yn yr awyr agored ar Domen y Mur, ger Trawsfynydd. Tomen y Mur neu Mur y Castell oedd yr enw a roddwyd ar Gastell Blodeuwedd a'i gŵr, Lleu, ac adfeilion o'r castell hwnnw yw'r domen erbyn hyn. Cyn y ddrama bu'r criw'n ffodus iawn i gael gwrandao ar Dewi Prysor yn egluro cefndir diddorol y chwedl. Cafwyd diwrnod gwerth chweil yn haul tanbaid Gorffennaf, a braf oedd gweld Rheinallt Davies, cyn-ddisgybl o'r ysgol yn aelod o gast y perfformiad.

Darllen Straeon yn Llys Dafydd

Fore Iau, y deunawfed o Orffennaf cafwyd llond bol o chwerthin yn Llys Dafydd. Ar ôl paratoi'n drylwyr bu Esme, Josh, Morgan, Gethin, Lois ac Efa (sydd ym mlwyddyn 8 erbyn hyn) yn perfformio eu straeon i ddisgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Penybryn a Llanllechid. Roedd y criw wedi bod wrthi'n ddygn yn defnyddio'r iPad i drawsnewid eu straeon yn e-lyfrau. Yn ogystal â hyn, gwahoddwyd yr amryddawn Mari Gwilym aton ni i ddarllen ei straeon hithau ac i gynnig cyngor i'r criw ar sut i berfformio stori. Diolch iddi am ei chwmni difyr dros ben a llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu perfformiad. Diolch i bwyllgor Llys Dafydd am gael defnyddio'r lleoliad arbennig a gobeithio y gallwn ni ddychwelyd yno'n fuan iawn.



O'r chwith: Gethin, Josh, Morgan, Efa, Esme a Lois

Ysgol Rhiwlas

Gelli Gyffwrdd

Wel am hwyl! Cafodd adran y Babanod andros o sbort yng Ngelli Gyffwrdd yn ystod eu trip diwedd blwyddyn. Cafwyd tywydd braf ac roedd (bron!) pawb yn ddigon dewr i fentro ar y ddraig Werdd ac atyniadau eraill.

Ffair Haf

Diolch unwaith eto i Gyfeillion Ysgol Rhiwlas am drefnu ffair Haf llawn hwyl – casglwyd £403 ar y noson a chafwyd hwyl a sbri. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac i Mr Davies am fod yn ddigon o sbort a gadael i bawb daflu sbyngau gwlyb ato i godi pres at yr ysgol!

Ffarwel

Megan Wyn, Megan Rhys, Robert, Ffion a Ciara oedd yn gyfrifol, fel blwyddyn 6, am drefnu'r parti diwedd blwyddyn eleni. Penderfynon nhw gael parti mygydau a bu pawb yn gwisgo mygydau plu a sequins am y prynhawn. Roedd y plant yn awyddus i elw'r parti fynd at Ysbyty Eryri am eu bod yn ddiolchgar i'r ysbyty am y gofal a gafodd Taid Megan Wyn – Eric - yn ddiweddar. Casglwyd £51 at yr ysbyty felly da iawn chi blant! Pob hwyl i chi yn eich ysgolion newydd – Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Friars. Cofiwch ddod yn ôl i'n gweld hefo'ch hanesion!

Profiad Gwaith

Braf oedd cael cwmni dwy o'n cyn-ddisgyblion ar ddiwedd tymor yr Haf – diolch i chi Lowri Bright o Ysgol Gyfun Llangefni a Siân Williams o Ysgol Dyffryn Ogwen am eich gwaith caled yn ystod cyfnod mor brysur! Pob lwc ar gyfer y dyfodol i'r ddwy ohonoch.

Croeso i'r Meithrin

Croeso atom i Tillie, Gethin, Jacob, Cynan a Cai i'r dosbarth Meithrin. Pump o ffrindiau bach newydd! Gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn hefo ni yma ac rydym yn siŵr y gwnewch ymgartrefu'n gyflym yma blantos!

Mosaig Mawr

Efallai eich bod wedi sylwi ar y gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen y tu allan i'r Ysgol dros yr haf ac mae'n debyg eich bod wedi sylwi ar y gorchudd gwyrdd sydd ar y gornel! Mae plant yr Ysgol wedi bod yn brysur yn gweithio ar fosaig mawr sydd yn cydnabod y cysylltiad a fu rhwng y pentref a'r chwarel. Bydd dadorchuddiad yn digwydd fore Sadwrn 21 Medi am 10.30 gyda bore o adloniant yn yr Ysgol – cofiwch ddod draw i'n cefnogi.

Ysgol Abercaseg

Sgorio'n uchel yng nghynghrair arbed ynni ysgolion Gwynedd
Mae'r grŵp Bysedd Gwyrdd, disgyblion a staff yr ysgol, wedi bod yn gweithio'n galed dros y ddwy flynedd diwethaf yn ceisio lleihau ein hallyriadau carbon drwy beidio â gwastraffu ynni. O ganlyniad, rydym wedi dod yn ail ymhlith holl ysgolion cynradd Gwynedd yng Nghynghrair arbed ynni 'Sbarci & Fflic' gan inni lwyddo i leihau 26.8% ar ein defnydd ynni.

Daeth y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd yng Ngwynedd, draw i'r ysgol i'n gwobrwyo a dywedodd, "Da iawn chi am eich gwaith caled - mae'n dangos fod diffodd offer pan nad ydym yn eu defnyddio, a diffodd goleuadau pan fo digon o olau naturiol neu neb yn defnyddio'r ystafell, yn gallu cael effaith sylweddol iawn ar ddefnydd yr ysgol o ynni.


"Mae Ysgol Abercaseg wedi gwneud yn wych - 8fed yn y gynghrair flwyddyn diwethaf, ac ail y flwyddyn yma. Rydych wedi bod yn rhan o'r rhaglen ers dwy flynedd bellach ac wedi parhau i leihau faint o ynni yr ydych yn ei ddefnyddio ddwy flynedd yn olynol.

"O ganlyniad i'r arbediad hwn, bydd ôl troed carbon yr ysgol yn lleihau yn ogystal â lleihau biliau trydan yr ysgol. Bydd yr ysgol wedi llwyddo i arbed 3 tonnell o garbon - digon i lenwi 18 bws deulawr!"



Dyma lun o aelodau'r grŵp Bysedd Gwyrdd yn cael eu llongyfarch ac yn derbyn gwobr gan y Cynghorydd Gareth Roberts a Ffion Jones, Swyddog Arbed Ynni Cyngor Gwynedd

“Ar eich marciau, barod, ewch”



“Ar eich marciau, barod, ewch.” Dyna'r gri a oedd i'w chlywed dro ar ôl tro yn ystod mabolgampau'r ysgol ynghyd â bonllfau o gymeradwyaeth gan y dyrfaf enfawr o berthnasau a ffrindiau a ddaeth draw i gefnogi'r disgyblion. Cafwyd prynhawn bendigedig o ran tywydd a chystadlu. Cystadlodd pawb yn frwd o'r Meithrin i flwyddyn 2, gan redeg, cario wyau ar lwyau a neidio gyda'r gorau er mwyn ceisio dod i'r brig yn y gwahanol rasus. Yn ddiamheuol, y ras lle gwelwyd yr elfen gystadleuol ar ei chryfaf oedd ras y mamau! Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Dosbarth Llafar

Croeso i ddisgyblion meithrin dosbarth Llafar. Erbyn hyn maent oll wedi hen ymgartrefu yn yr ysgol ac yn cael hwyl gyda'u ffrindiau newydd.

Ysgol Tregarth

Croesawu Pennaeth newydd



Hoffai'r ysgol groesawu Mrs Alison Halliday fel pennaeth newydd Ysgol Tregarth a Bodfeurig. Bu Mrs Halliday yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Tregarth am dros naw mlynedd, felly mae hi'n wyneb cyfarwydd iawn yn ein mysg. Mae holl staff y ddwy ysgol, y llywodraethwyr, y rhieni a'r plant yn dymuno'n dda iddi, ac yn sicr o'i chefnogi yn ei rôl newydd.

Croesawu staff newydd
Croeso mawr i Miss Caryl Jones a fydd yn athrawes newydd ym mlwyddyn 1 y tymor hwn. Mae'r plant yn edrych ymlaen at fod yn ei chwmmi. Hoffai'r ysgol estyn croeso

mawr i Mrs Marion Mayhead, sydd yn gymhorthydd dysgu ym mlwyddyn 5 a 6. Gobeithio fydd y ddwy ohonoch yn hapus iawn yn Ysgol Tregarth.

Plant newydd
Blwyddyn Meithrin

Dyma ddisgyblion newydd yr ysgol yn y dosbarth Meithrin. Maent yn siŵr o setlo dan adain Ms Ilid Humphreys, Ms Barnes a Ms Gwyneth. Edrychwn ymlaen at weld y plantos yn mwynhau a datblygu yn Ysgol Tregarth.



O'r dde i'r chwith - Steffan, Gwion, Cai, Abigail, Alfie, Crystal, Brooke, Jac, Zak, Mason a Nel.

Mae Ms Humphreys a Ms Barnes yn edrych ymlaen yn eiddgar at gyfarfod Natalia, Elliw, Casi a Jamie yn yr wythnosau nesaf hefyd.

Blwyddyn Derbyn



Dyma ni blantos y dosbarth derbyn sydd bellach yn dod i'r ysgol drwy'r dydd! Byddant yn siŵr o helpu Ms Humphreys a Ms Barnes wrth groesawu'r plant meithrin.

Llywodraethwyr newydd

Croeso mawr i lywodraethwyr newydd yr ysgol sef Ms Mandy Griffiths, Mrs Nikola Gail, Mr Mark Gray, Ms Helen Bladwell, a Mr Hywel Parry. Mae'r ysgol yn ddiochgar iawn am eu cefnogaeth a'u mewnbwn i'r ysgol er mwyn parhau i ddatblygu a llamu 'mlaen.

Themâu'r tymor

Dyma'r themâu dysgu am yr hanner tymor cyntaf yn yr ysgol. Os oes gennych chi unrhyw adnoddau yr hoffech eu rhannu a fyddai'n cyfoethogi'r themâu yma e.e unrhyw lyfrau stori/cyfeiriol, ffotograffau, neu arteffactau, byddai'r ysgol yn ddiochgar iawn. Bydd yr ysgol yn siŵr o groesawu unrhyw ymwelwyr a fyddai'n fodlon rhoi cyflwyniad i'r plant ynglŷn â maes arbennig o fewn y thema.
Dosbarth Idwal (Meithrin/Derbyn) - Blasus – Bwydydd a bwyta
Dosbarth Llywelyn a Dafydd (Blwyddyn 1 a 2) – Hapusrwydd
Dosbarth Tryfan (Blwyddyn 3 a 4) – Coedwig wyllt – Astudiaeth o goedwigoedd lleol
Dosbarth Ffrydlas (Blwyddyn 4 a 5) Gwaed ac Esgyrn – Astudiaeth o'r corff a'r hyn sy'n cadw'r corff yn iach
Dosbarth Ogwen (Blwyddyn 5 a 6) Blits – Astudiaeth o'r Ail Ryfel Byd.

Ysgol Bodfeurig

A dyma ni, mis Medi wedi cyrraedd unwaith eto! Mae holl staff yr ysgol yn falch o gael bod yn ôl ym mwrlwm prysur bywyd ym Modfeurig. Hoffai'r ysgol groesawu'r disgyblion newydd. Mae 11 disgybl newydd wedi cychwyn ar eu taith ym Modfeurig leni! Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn wych!



Dyma blant dosbarth meithrin sydd newydd gychwyn yn yr ysgol!

Croesawu Mrs Halliday.

Hoffai staff yr ysgol groesawu Mrs Halliday fel ein pennaeth newydd yn Ysgol Bodfeurig. Mae hi'n ymgymryd â dyletswyddau pennaeth yn Ysgol Tregarth a Bodfeurig yn dilyn ymddeoliad Mrs Meriel Parry. Hoffai'r staff ddymuno'n dda iawn i'r ddwy ar eu gyrfaoedd a'u llwybrau newydd.

Cegin Newydd!

Mae'r ysgol wedi bod yn cael ei hadnewyddu dros y gwyliau haf a llawer o weithwyr wedi bod yma yn ei huwchraddio. Mae Anti Anwen, ein cogyddes, wedi cael cegin newydd sbon! Roedd y plant wrth eu boddau yn cael cinio a chael gweld yr holl newidiadau i'r gegin!



Dyma'r disgyblion yn mwynhau eu cinio ar ôl dychwelyd i'r ysgol!

Ysgol Pen-y-bryn

Plant Bethesda yn gwneud eu rhan dros yr amgylchedd

Wedi wythnosau o waith caled gan ddisgyblion Ysgol Pen y Bryn, mae posteri a ddyluniwyd ganddynt wedi eu gosod fel arwyddion o amgylch Bethesda yn annog perchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes.

Roedd y gwaith gan ddisgyblion blwyddyn 4 Ysgol Pen y Bryn yn rhan o ymgyrch taelo problemau baw cŵn cynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd. Mae'r posteri lliwgar terfynol yn effeithiol dros ben gyda llun o flodyn a baw ci ynghyd â'r dyfyniad: 'Pa un fydech chi yn hoffi ei arogl!'

Mae'r arwyddion wedi eu lleoli mewn pum safle o amgylch cyffiniau'r ysgol, gyda dau ar fynediadau'r ysgol, un ar waelod llwybr sy'n arwain i'r ysgol, un ar safle bws gerllaw ac un arall ar lwybr troed uwchben yr ysgol.

Dywedodd y Cyngorydd Ann Williams, sy'n cynrychioli'r ardal ar Gyngor Gwynedd:

"Mae'n braf gweld y plant yn cael mwynhad o wneud gwahaniaeth i'w hamgylchedd lleol ac iddynt gael dysgu pwysigrwydd glanhau ar ôl cŵn. Roedd sawl poster effeithiol wedi ei ddylunio ac roedd yn amhosib dewis ond mae'r poster terfynol mor drawiadol. Diolch yn fawr iawn i bawb o ddosbarth blwyddyn 4 Ysgol Pen y Bryn."

Ychwanegodd y Cyngorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

"Mae problem baw cŵn yn un sy'n achosi pryder i nifer o drigolion. Rydym felly yn hynod ddiolchgar i blant Ysgol Pen y Bryn, Bethesda am fynd ati i ddylunio arwyddion yn amlygu'r neges fod angen i berchnogion cŵn gymryd cyfrifoldeb drwy lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion i gyd am eu gwaith caled.



Gwen Alun, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd (dde) gyda'r Cyngorydd Ann Williams, Mrs Ceren Lloyd, Pennaeth a disgyblion blwyddyn 4 Ysgol Pen y Bryn.

Ysgol Llanllechid

Croeso

Croeso'n ôl i bawb a chroeso arbennig i'n plant bach newydd sydd eisoes wedi ymgartrefu yma yn ein plith.

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i dri aelod o staff a gafodd haf i'w gofio eleni! Priododd Mr Stephen Jones (athro Blwyddyn 3 a 4) ag Anona, ac mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llanddaniel, Ynys Môn, erbyn hyn. Pob dymuniad da i'r ddau. Ganed mab i Mrs. Elen Evans a Gareth sef Abner Clwyd, a merch i Mrs Holly Rowe a Craig sef Grace Emily! Llongyfarchiadau gwresog i'n cyn-ddisgyblion hefyd ar eu llwyddiannau mewn gwahanol arholiadau. Dymuniadau gorau i chi i gyd yn eich meysydd newydd ac i'r dyfodol.

Bl.6 ar Heno S4C



Diolch i wahoddiad Mr a Mrs Alwyn Bevan, cafodd Bl.6 Ysgol Llanllechid yr anrhydedd o fod yn osgordd i feicwyr dewr ar eu taith yr holl ffordd i Fflandrys. Uchelgais Côr Rygbi Gogledd Cymru yw codi arian ar gyfer cofeb Gymreig i dalu teyrnged i'r holl Gymry a laddwyd yn Fflandrys yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth gwrs, yr enwocaf

ohonynt oedd Hedd Wyn a bu'r disgyblion yn adrodd un o'i gerddi gan ddymuno'n dda i'r beicwyr wrth ymadael. Yn eu mysg roedd Gerallt Pennant a gwelwyd y disgyblion ar raglen Heno, S4C. Erbyn hyn mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael mynd i'r Ysgwrn i ddysgu mwy am yr hanes. Diolch i Mrs Bevan, Mrs Siân Rees ac i Mrs Sandra Owen (Sandra Llan) am y croeso cynnes yn y Clwb Rygbi.

Yn y llun gwelir rhai o'r beicwyr arwrol ar eu ffordd i Fflandrys. Yn cadw cwmni iddynt yn y llun mae disgyblion Bl. 6 Ysgol Llanllechid, Mrs Gwenan Davies Jones a'r cyflwynydd Gerallt Pennant.

Croeso Ysgol Iach

Diolch i ddisgyblion Bl.6 a groesawodd y rhieni a'r plant bach newydd gyda ffrwythau a llysiau ffres o ardd organig fel rhan o'n hymgyrch Ysgol Iach.



Dosbarthu ffrwythau a llysiau i'r rhieni newydd fel rhan o'r ymgyrch Ysgol Iach.

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Trefnydd : Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth, BANGOR, Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798
E-bost = dafydd.roberts798@gmail.com

RHAGLEN 2013/2014

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch**

Lleoliad y cyfarfodydd : **Festri Capel Jerusalem, Bethesda**

2013

Nos Lun 14 Hydref	7.00 Y CYFARFOD BLYNYDDOL 7.30 Lowri Williams – <i>Hen gaeau, hen enwau, hen hanes Dyffryn Ogwen</i>
Nos Lun 11 Tachwedd	7.00 Dei Tomos – <i>‘Awyr Las i’w Harloesi’ – teithwyr cynnar yn Eryri</i>
Nos Lun 9 Rhagfyr	7.00 Catrin Wager – <i>Prosiect Penrhyn – catalogio archifau Castell Penrhyn</i>

2014

Nos Lun 13 Ionawr	7.00 Wyn Bowen Harris – <i>William Bulkeley o'r Brynddu – dyddiaduron 1690 - 1751</i>
Nos Lun 10 Chwefror	7.00 Arwel Jones – <i>Cythraul y Bêl Gron</i>
Nos Lun 10 Mawrth	7.00 Elin Gwyn – <i>Dehongli portreadau cyfoes o'r broydd chwaredyddol [Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]</i>

FFI AM Y CWRS	£6.00 i rai mewn gwaith
Y ffioedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn noson gyntaf y tymor, os gwelwch yn dda. Sיעiaiu yn daladwy i : Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.	£3.00 i bensiynwyr a'r di-waith Plant ysgol am ddim Cost darlithoedd unigol = £1.50

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2012/13:

Cadeirydd : Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth (01248) 602021

Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth. (01248) 600798

Ysgrifennydd : Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

Mae'r mwyafrif helaeth yn ysu am dywydd braf a sych gyda'r garddwyr yn ein plith yn cael eu bodloni os bydd ambell gawod ysgafn nawr ac yn y man. Pan ddaw at y tywydd, mae pysgotwyr yn tynnu'n groes i'r graen. Er mor braf yw bod allan o'r tŷ pan fo'r haul yn tywynnu, mae'n anobeithiol ar gyfer 'sgota. Ar dywydd braf bydd brithyll y llynnoedd yn tueddu i bwdu yn y dyfnderoedd tra bod diffyg glaw yn ei gwneud hi'n amhosib i'r eogiaid 'redeg' fyny'r afon. Tra bod pawb call yn gorfoleddu yn y tywydd braf bydd pysgotwyr yn cyfarch ei gilydd drwy ddweud fod 'isho glaw' - a llawer ohono!

Dechreuodd mis Awst yn addawol iawn ar yr afon gyda llif cyntaf gwirioneddol y tymor yn dod â nifer dda o wyniadau neu sewin, fel y bydd rhai'n eu galw, i'r afon. Hyd yn hyn fe ddaliwyd ambell eog, fel yr un wyth bwys a hanner yma a ddaliodd Alec Roberts uwchlaw Pont Coetmor (yn y llun), ond ni ddaeth y niferoedd y byddem wedi gobeithio amdanynt. Mae'r disgwyl am y llif nesa' yn fawr!

Ers y rhifyn diwethaf o'r Llais, mae'r Gymdeithas wedi bod yn brysur yn stocio Llyn Ogwen ac yn cynnal cystadlaethau.



Llongyfarchiadau i Steven Jones ar ennill Cystadleuaeth Coffa Eryl Jones yn Llyn Idwal. Llongyfarchiadau hefyd i Derfel Williams (pry' genwair oedolyn), Gwyn Jones (pluen oedolyn) ac yn arbennig i Morgan Jones o Dregarth ar ennill y categori pry genwair ieuencid Llyn Ogwen am yr ail dro yn olynol. Diolch yn fawr iawn i Bryn Evans am ei waith trefnu ac i Mr Alan Davies am ei gefnogaeth ffyddlon drwy gyfrannu'r wobr ariannol ar gyfer cystadlaethau'r ieuencid. Llongyfarchiadau hefyd i dîm pluen 'Sgotwrs Ogwen' ar ennill rownd mis Gorffennaf o Gynghrair Llyn Brenig.

Siomedig yw gorfod sôn am yr adroddiadau sydd yn dod i law am unigolion yn pysgota dyfroedd y gymdeithas a hwythau heb godi trwydded. Boed nhw'n sleifio'n llechwraidd i fyny i Ffynnon Lloer neu'n sgota'r afon heb drwydded, mae ymddygiad o'r fath yn gwbl annerbyniol a digywilydd. Mae'n ddyddiau caled ar bob clwb a chymdeithas fechan gyda rhenti'n codi a nifer aelodau yn plymio - dyma'r union resymau pam y bu raid i ni godi pris trwydded eleni. Pe bai'r unigolion hyn yn codi trwydded ni fyddai raid i'r gweddill ohonom ysgwyddo'r baich. Beth sydd yn eu gwneud nhw mor arbennig fel nad ydynt yn gorfod dilyn yr un drefn â'r gweddill ohonom? Erfyniaf felly ar i bob aelod ofyn am gael gweld a gwirio trwyddedau cyd bysgotwyr, dim ots pa mor gyfarwydd â gwên deg yw'r wyneb, ac i gysylltu â'r pwyllgor os ydych yn amau drwgweithredu. Ceir y manylion cysylltu ar eich trwydded neu ar ein gwefan **pysgotaogwenfishing.org**. Wrth gwrs mae ymddygiad o'r fath yn teimlo'n waeth byth pan fo'r tywydd yn sych a'r cyfleoedd i 'sgota yn brin. Mewn dyddiau a fu, byddai llwythau brodorol y paith yn arfer perfformio dawnsfeydd cain i annog dyfodiad y glawogydd. Peidiwch â synnu felly, os y gwelwch ambell 'sgotwr yn dawnsio yn ei wedars os na chawn li' mawr cyn bo hir!

Pob Lwc
Gareth Evans **LLUN – Alec Roberts**

MAE CALENDR LLAIS OGWAN 2014 EICH ANGEN CHI!!!!

Oes gennych chi luniau a fyddai'n addas i galendr Llais Ogwan, byddwn yn falch iawn o'u derbyn.

Rydym am geisio rhoi blaenoriaeth yn y calendr nesaf i luniau sy'n adlewyrchu bywyd yn Nyffryn Ogwen, ond nid oes raid i'ch luniau ddilyn y thema honno – llun diddorol a da sy'n bwysig – bydd pob un yn cael ei ystyried

Anfonwch y lluniau – yn electronig, os yn bosibl, (ond nid o reidrydd) at Dafydd Fôn Williams 14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, LL57 3TR dafydd@gerlsn.wanadoo.co.uk

CYN DIWEDD MEDI, OS GWELWCH YN DDA! Edrychwn ymlaen at dderbyn y lluniau

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Marchnad Ogwen

Efallai mai eich Stondin CHI sy'n cael sylw'r mis hwn!

Mae Marchnad Ogwen yn awyddus iawn i gefnogi'r gymuned trwy ganiatáu Stondin Elusen bob mis. Cynhaliwyd y gyntaf ym Marchnad Gorffennaf a bu'n llwyddiant sicr. Casglwyd arian tuag at Tŷ Enfys a Ward Dewi, Ysbyty Gwynedd.

- Ni chodir tâl am osod eich Stondin Elusen
- Cewch ddefnyddio un bwrdd (fel Stondinwyr eraill y Farchnad)
- Mae'n rhaid i'r arian a gesglir fynd i gefnogi -
 - Achos da lleol
 - Elusen gydnabyddedig megis Ymchwil Cancr, Ymchwil y Galon ayb.
 - Sefydliad lleol megis ysgol, capel, clwb chwaraeon a.y.b.
 - Mudiad lleol megis Cylch Meithrin, Merched y Wawr a.y.b.
- Caiff eich elusen ei hysbysebu ar wefan Marchnad Ogwen am y mis cyn cynnal y Stondin
- Ni chaniateir gwerthu bwyd o unrhyw fath ar y Stondin
- Mae'n rhaid llenwi ffurflen gais ymlaen llaw i Bwyllgor Marchnad Ogwen
- Gellir cael ffurflen gais trwy -
 - Ymweld â'r Farchnad, neu trwy gysylltu â'r Ysgrifennydd ar ein gwefan, neu ysgrifennu at Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

Eich Stondin chwi yw hon a gobeithio y byddwch fel cymuned yn gallu elwa ohoni.

Mae Stondin Elusen mis Hydref eisoes wedi cael ei llogi a bydd yr arian yn mynd tuag at yr Uned Ymchwil Cancr ym Mangor er cof am Carwyn Thomas, Tregarth.

Cynhelir y Farchnad nesaf ar 12 Hydref yn y Clwb Rygbi o 10.00 y bore tan 2.00 o'r gloch.

Gallwch ddilyn y Farchnad ar Twitter #marchnadogwen, ar Facebook ac wrth gwrs ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk Croeso cynnes.

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Medi 24 Hydref 8, 22, 29. am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â Neville Hughes ☎ 600853

EGLWYS UNEDIG BETHESDA 'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs	Peint a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick Bethesda 11.00 – 12.00 Dydd Sadwrn cyntaf pob mis	Douglas Arms Bethesda 20.00 – 21.00 Trydydd Nos Lun pob mis

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid yn cynnal

Ffair Hydref

yn Ysgol Llanllechid Ddydd Sadwrn, 28 Medi 11.00am – 3.00pm Adloniant, stondinau, gemau, bwyd a digon o hwyl i'r teulu cyfan Mynediad: £1 i oedolion; plant cynradd am ddim Croeso cynnes i bawb

(Manylion pellach: Iona Robertson: 602658 / 07747 778577 neu iona.robertson@tesco.net)

Bore Coffi

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen Yng Nghaffi Coed y Brenin Sadwrn, 5 Hydref 2013 10.00 – 12.00

Bore Coffi

Yn y Douglas, Bethesda Sadwrn, 28 Medi 2013 10.00 i 12.00 Ye Elw at Nyrsys Macmillan

Côr y Dyffryn

Ail ddechrau Ymarfer Ar gyfer Gwasanaeth Nadolig Nos Sul, 6 Hydref am 6.15 Yn Festri Jerusalem Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Bore Coffi

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen Yng Nghaffi Coed y Brenin Sadwrn, 19 Hydref 2013 10.00 - 12.00

Noson Goffi

yn Festri Bethlehem, Talybont Nos Wener, 27 Medi 2013 am 6.30 yr hwyr Mynediad: £1.00 Yr Elw at Nyrsys McMillan

Côr Cymysg Dyffryn Conwy

yn cyflwyno

'Atgof o'r Sêr'

yng Nghapel Moreia, Llangefni Nos Sul 29 Medi 2013 am 7.30 yr hwyr Unawdwyr Gwilym Bryniog Davies (Bariton); Carys Garner (Soprano) Arweinydd : TRYSTAN LEWIS TOCYN - £10.00 Cwpwrdd Cornel, Llangefni 01248 750218 Awen Menai, Porthaethwy 01248 715532 neu 01492 640703)

Balchder Bro Ogwen

Ymgyrch Casglu Sbwriel

Cyfarfod ym Maes Parcio Plas Ffrancon am 10.00

Dydd Mawrth, 24 Medi

Croeso i bawb.

Gŵyl Afon Ogwen 2013

Canolfan y gweithgareddau fydd Capel Jerusalem

Mae'r capel yn adeilad hanesyddol diddorol iawn gyda digon o le dan do i gynnal yr arddangosfa gelf, sgwrs gan Elwyn Hughes ar blaciau Llên Ogwen, arddangosfa o hanes lleol, gweithgareddau i blant a'r Raffl Fawr Gymunedol.

Tu allan yn yr ardd gobeithiwn drefnu'r digwyddiadau arferol o ganu, cerddoriaeth a dawns, cerfluniau a gwaith yr 'yambombers' yn addurno'r safle.

Yn y goedwig bydd cyfle i'r teulu roi cynnig ar adeiladu blychau nythu i'r adar a'r Wiwer Goch, a chael mynd am dro ar y rhan newydd o'r Lôn Las.

Bydd Rheilffordd y Penrhyn ar agor i ymwelwyr unwaith eto, a chyfle i weld sut mae atgyweiriad y Felin Fawr yn dod yn ei flaen.

Hefyd bydd nifer o eitemau cerddorol yn digwydd ar y Stryd Fawr – yn nhafarn y Douglas Arms, y Llangollen a Fitzpatrick's.